PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

RHIFYN 28 TUDALEN

# y tincer

75c | Rhif 441 | Medi 2021










# Tân yn y Borth

Mae un o drigolion y Borth wedi sefydlu cronfa arbennig i helpu teulu lleol ar ôl i'w cartref gael ei ddifrodi mewn tân difrifol ar ddydd Gwener 3 Medi.

Cafodd y gwasanaethau brys eu galw i gartref teulu Jarvis yn Gwelfor ar brif stryd y pentref toc wedi hanner awr wedi tri y prynhawn, yn dilyn galwad 999 gan gymydog lleol James Davies.

Ar un adeg, roedd cyfanswm o 45 o swyddogion tân ar y safle, ynghyd ag wyth injan dân o orsafoedd Aberdyfi, Aberystwyth, Machynlleth, Aberaeron, Tregaron, Ceinewydd a Llandrindod.

Chafodd yr un o'r preswylwyr anafiadau ond bu farw un o gŵn y teulu ynghyd ag adar oedd mewn cawell.

Bu'r ffordd drwy'r pentref ar gau tan y bore canlynol a bu'n rhaid i dafarn y Railway, a sinema a thŷ bwyta Libanus 1877 gau ar y nos Wener gan fod y ffordd ynghau a'r tân wedi effeithio ar y cyflenwad trydan.

Bu'n rhaid symud pobl oedd yn byw yn agos at yr adeilad o'u tai am gyfnod, ac fe agorwyd y Neuadd gymunedol gan y Cynghorydd Ray Quant ar gyfer y sawl oedd angen lloches dros dro. Bu Cadeirydd Cyngor Cymuned y Borth, Hugh Hughes, yno ynghyd a'i wraig Andrea, yn darparu te, coffi a lluniaeth ysgafn drwy garedigrwydd Premier Family Stores nes i bawb gael dychwelyd i'w tai tuag 11 o'r gloch yr hwyr.

Parhau ar dudalen 4






Lluniau: Iestyn Hughes

## Seiclwr lleol ar y blaen

**Llongyfarchiadau i Gruffudd Lewis am wneud cystal yn y Ras Tour of Britain. Ar 8 Medi roedd Gruff ar dir cyfarwydd yn y cam o Aberystwyth i Landudno a daeth nifer allan i'w gyfarch a dymuno'n dda iddo. Roedd gan yntau amser i gydnabod nifer wrth basio.**





Llun: NISA Penrhyn-coch

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


CYMRAEG

# dyddiadur

**Rhifyn Hydref – Dyddiad cau** Hydref 8; **Dyddiad cyhoeddi** Hydref 20

**MEDI 19** Bore Sul Taith tractorau Penrhyn-coch o Ysgol Penrhyn-coch. Lluniaeth o 9yb; gadael am 10.30 Raffl. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Lynwen Jenkins 07711968497/01970 828330

**MEDI 25** Bore Sadwrn Medi'r Gymraeg: cefnogi siaradwyr neeydd yn Aberystwyth- cerdded, coffi a chlonc. Cyfarfod wrth gloc y dref am 10.30. Taith o amgylch Aberystwyth am ryw awr; paned a sgwrs wedyn mewn caffi kleil. Trefnur gan Gymdeithas yr Iaith.

**HYDREF 3** Dydd Sul Taith tractor yn cychwyn a gorffen yn Mart Aberystwyth, Gelli Angharad rhwng 1.00-4.00. Lluniaeth ar y diwedd a raffl Tractor 4x4 £10 Codi arian i Uned Cemotherapi a Beiciau Gwaed Cymru. Ymholiadau Nia Gore 07968 652822

**HYDREF 15** Nos Wener 'Y gair tu ôl i'r gân' – noson yng nghwmni Robat Arwyn Cymdeithas Lenyddol y Garn Cyfarfod Zoom am 7.30 o'r gloch.Croeso cynnes i bawb ymuno–cysylltwch â Marian am fanylion marian_hughes@btinternet.com

**HYDREF 20** Nos Fercher Bethan Wyn Jones yn trafod planhigion meddyginiaethol. Cymdeithas y Penrhyn trwy zoom am 7.30 Manylion gan yr Ysgrifennydd – Ceris Gruffudd

**HYDREF 25- 29** Dyddiau Llun i Gwener Hanner Tymor ysgolion Ceredigion

## Llythyr

Annwyl Olygydd,
Swynol a diddorol iawn oedd darllen yr erthygl ar wybodaeth Enwau Lleoedd yn rhifyn Mehefin o'r *Tincer*. Rwyf wedi gwersylla ger Pantau'r Brwyn ar sawl achlysur ac wedi mwynhau'r lleoliad tawel.

Treuliodd y diweddar Ken Jones y bardd haibun, ysgrifennwr a Bwdhydd adnabyddus, a oedd yn byw yng Nghwmrheidol gyda'i wraig Wyddelig ac awdur Noragh, gryn dipyn o'i amser yn ardal Craig y March yng Nghwm Gwerin uwchben Pantau'r Brwyn gyferbyn â Banc Lluestnewydd. Yn ei lyfr bach gwych – *Stallion's Crag*: *Haiku and Haibun* (Iron Press, 2004), mae'n ysgrifennu'n farddonol ac yn huawdl am y lleoliad, a sut y treuliodd ei nosweithiau mewn lloches greigiog naturiol fach, ac yn siarad yn annwyl am archwilio'r dyffryn anghysbell yng nghwmni Erwyd Howells. Roedd yn wir yn mwynhau ***lle diddos*** am ei fyfyrdod tawel Bwdhaidd.

Yn anffodus bu farw Ken Jones ym mis Awst 2015 yn 85 oed ac mae'r llyfr *Stallion's Crag* bellach allan o brint ond mae'n dal i fod ar gael ar y farchnad lyfrau ail law ac mae'n werth chwilio amdano a'i ddarllen am ei ddisgrifiad atgofus disglair o un o'n lleoliadau anghysbell a gwerthfawr.

Diolch am yr atgofion.

Yr eiddoch yn gywir
Brian Davies, Abertawe

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mehefin 2021

**£25** (Rhif 224) Juliet Williams, Bryngwyn Bach, Dolau
**£15** (Rhif 52) Hedydd Cunningham, Tyddyn Pen y Gaer, Llandre
**£10** (Rhif 89) Llinos Evans, Dôlwerdd, Dôl-y-bont

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plîs rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost **m.e.bebb@talk21.com**

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**£200** Cyngor Cymuned Geneu'r-glyn
**£100** Clwb Cylch Cinio Aberystwyth

## 30 mlynedd yn ôl



Brenhines Carnifal Penrhyn-coch'91, Miss Emma Jones, Ger-y-llan, gyda'i morwynion a'r gweision. Meganne John, Ellen Davies, Nicola Chapman, Carys Evans, Reian Jones a Robert Glyn Hughes i gyd o Benrhyn-coch. Hefyd gwelir Miss Melanie Evans, Beech House, Brenhines '90 a Llywydd y Carnifal eleni, Mrs Ceinwen Jones, Llanddeiniol, Brenhines 1975.
Lluniau: Hugh Jones. (O *Dincer* Medi 1991)

# Dysgu wrth gerdded

Ar bnawn Sadwrn, gŵyl y banc, ac Aber dan ei sang, daeth criw bach o ddysgwyr Cymraeg sy'n byw yn ardal Aberystwyth, a rhai sy'n helpu dysgu Cymraeg, at ei gilydd am sgwrs. Bu'r criw yn cerdded y prom ac yn rhoi'r byd yn ei le. Mentrodd rhai i fyny i dop Craig Glais, er gwaetha'r gwres! Mae bwriad cynnal digwyddiad o'r math yn rheolaidd er mwyn dod â dysgwyr o bob gallu a siaradwyr Cymraeg at ei gilydd. Croeso i chi gysylltu ag Anwen (anwenmai@hotmail.co.uk) os oes gennych ddiddordeb.



## Dol-y-bont

**Wyrion bach newydd**
Llongyfarchiadau i John a Sian Cory, Bryngwyn, ar enedigaeth ŵyr bach newydd - Dewi Ifan a anwyd i Rhian a Phill yn Y Borth ar y 4ydd o Awst.

Un arall sydd wedi cael ŵyr newydd yw Sw Gerallt, Leri. Ganwyd mab i Rhys a Claire yn Llangyfelach ddechrau Gorffennaf; brawd bach i Osian.

**Newid aelwyd**
Dymunwn yn dda i Gloria Davies, Maes y Leri, yn ei chartref newydd yn Rhydyfelin. Gobeithio y bydd yn hapus yno ac estynnwn groeso i deulu newydd Maes y Leri.

**Anrhydeddu**
Llongyfarchiadau i Geraint Evans, Pantydwn, ar gael ei anrhydeddu gan Glwb Golff Y Borth am roi dros 40 mlynedd o wasanaeth i'r Clwb drwy ofalu ar ôl y borfa.

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd Hapus yn 60 i Gerald Watkin, Henllys. Dathlodd Gerald y diwrnod mawr ar y 5ed o Awst.

### Pod Rhod

Bu Cered yn gweithredu yn ddyddiol ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol - ar Facebook yn benodol trwy Cica Corona ac wrth gwrs eu tudalen annibynnol. Mae Rhodri Francis wedi creu rhaglen o'r enw Pod Rhod sydd yn cael ei darlledu pob dydd Mercher. Podlediad yw e gydag unigolyn sydd yn cyfrannu tuag at ein cymuned boed fel unigolyn neu fel rhan o grŵp neu fudiad. Siarad am y Gymraeg yn gyffredinol mae'r podlediad a hanes eu mudiad etc. Os ewch ar dudalen Facebook Cica Corona, mae enghreifftiau fan'na o'r math o raglenni yw nhw.




BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied - Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

**Gwasanaethau'r Eglwys Yng Nghymru Medi 2021**

**19 Medi**
10.00am Llangorwen
10.30am Capel Bangor
11.00am Y Borth
11.00am Ar-lein (Saesneg)

**26 Medi**
10.00am Llanfihangel Genau'r-glyn
11.00am Penrhyn-coch
3.00pm Ar-lein (Cymraeg)

### Parhad o dudalen 1

Dywedodd y Cynghorydd Hughes: “Mae’r digwyddiad yma wedi bod yn sioc i ni gyd ac rydym yn hynod ffodus na chafodd neb ei anafu. Mae’n meddyliau gyda’r teulu sydd wedi’u heffeithio gan y tân, a hoffem ddiolch i’r gwasanaethau brys am eu holl ymdrechion.”

O fewn oriau i’r digwyddiad, roedd un o ffrindiau agos y teulu wedi sefydlu tudalen codi arian ar wefan Go Fund Me: https://www.gofundme.com/f/help-the-jarvis-family-after-house-fire


Dywedodd Kat Sankey: “Mae’r teulu wedi colli eu cartref teulu a phopeth y tu mewn. Nid oes ganddynt unrhyw beth ar ôl, maen nhw wedi colli popeth - offer gwaith, dillad, arian, eitemau personol a hefyd rhai anifeiliaid anwes. Dwi’n gwybod nad all arian wneud yn iawn am rai o’r eitemau a gollwyd gan fod iddynt werth sentimental ond mae unrhyw beth yn mynd i fod yn gymorth i’w cael yn ôl ar eu traed, i gael dillad ar eu cefnau ac i helpu i godi arian i brynu’r eitemau hanfodol sydd eu hangen arnynt. Does ganddyn nhw ddim byd o gwbl! Mae gan y Borth gymuned wych ac rydyn ni i gyd yn tynnu at ein gilydd ar adegau fel hyn.”



Gosodwyd targed o £2,000 yn wreiddiol ond wrth i’r *Tincer* fynd i’r wasg, roedd cyfanswm y cyfraniadau wedi cyrraedd mwy na £11,000.

## Adolygiad

Gwyn Jenkins **A Welsh County at War**
Y Lolfa  176t.  £9.99




Gall y ffin rhwng mawrygu rhyfel ac anrhydeddu’r rhai a ddioddefodd ar faes y gâd fod yn fain a bregus, fel y gwelwn ddechrau mis Tachwedd bob blwyddyn. Nid felly y mae hi yn y casgliad hwn o draethodau. Er bod llawer o’r hanesion wedi bod yn rhan o’r cyfoeth llafar dderbyniodd fy nghenhedlaeth i yn ein plentyndod mae eu cyflwyno drwy’r Saesneg yn rhoi iddyn nhw ddieithrwch sy’n gwneud iddyn nhw deimlo fel stori rhywun arall, a dyna beth ydyn nhw wrth gwrs i nifer fawr o drigolion Ceredigion bellach. Diolch byth eu bod yn cael eu dogfennu mewn ffordd mor gymen a darllenadwy i genedlaethau’r dyfodol.

My People, teitl llyfr drwg-enwog Caradoc Evans yn 1915, yw’r geiriau cyntaf yng nghyflwyniad yr awdur, a hynny’n rhoi cyfle iddo bwysleisio’r gwahaniaeth anferth rhwng y ddau waith - y cyntaf yn ddarlun dychmygol unochrog o agweddau tywyllaf cymdeithas y sir, a’r ail, y gellid hefyd fod wedi ei alw yn My People, yn ffrwyth ymchwil trwyadl a ffeithiol, ac felly, o reidrwydd, yn ddarlun cytbwys a theg!

Mae’r ddrysfa o anghytundebau a gwrthdrawiadau sy’n dilyn yn ymestyn drwy gyfnod y paratoi, y rhyfel ei hun a’r gwaddol ar ôl yr enbydrwydd. Amhosibl mewn gwaith mor fyr fyddai gwneud cyfiawnder â’r dadleuon o blaid ac yn erbyn rhyfelgarwch a heddychiaeth ond mae yma hen ddigon i godi awydd yn y chwilfrydig i ddarganfod rhagor, a’r rhestr dra helaeth o ffynonnellau yn y cefn yn arweiniad hynod werthfawr.

Mae’r teitl “Unpatriotic Farmers?” yn sicr o dynnu sylw mewn sir mor amaethyddol. Ar ôl cofnodi’r sen a’r dicter tuag at ffermwyr oherwydd eu hawl i beidio gorfod enlistio, nodir bod nifer yr erwau o dir âr yng Ngheredigion ar gyfer tyfu gwenith, barlys, ceirch a thatws, wedi cynyddu o 60,076 i 68,628, yn ystod y rhyfel. Sobreiddiol yw sylweddoli bygythiad mor real oedd newyn ar adeg pan oedd cymaint o’n bwyd yn cael ei fewnforio a llongau’r gelyn yn plismona’r moroedd. Pwysleisir hynny hefyd yn y tri ymrwymiad mewn pledj roedd gofyn i blant ysgol ei lofnodi, sef 1. Bwytwch eich bwyd yn araf a’i gnoi yn dda; 2. Bwytwch cyn lleied o fara ag y gallwch chi; 3. Peidiwch â gwastraffu dim bwyd.

Ymhlith y straeon dirdynnol mae hanes athro a ddiswyddwyd gan lywodraethwyr ei ysgol am fod yn wrthwynebydd cydwybodol ac a oedd mewn perygl o gael ei orfodi i enlistio a’i gosbi’n llym. Ond cafodd ei swydd yn ôl o ganlyniad i streic gan rai o fechgyn yr ysgol a orymdeithiodd drwy Benparcau yn herio’r llywodraethwyr.

Ceir enwau nifer fawr o bobl rhwng y cloriau, rhai er clod, rhai er anghlod. Gwta ganrif yn ddiweddarach bydd rhai disgynyddion yn ymfalchio a rhai’n cywilyddio. Er hynny mae’r hanesion yn bwysig, gan eu bod yn creu cysylltiad anhepgorol rhwng hanes argyfwng rhyngwladol byd-eang pell-gyrhaeddol, a’r lleol a’r personol.

Oes gobaith y gwelir fersiwn Cymraeg tybed – yn bennaf i’r cenedlaethau sy’n codi gael darllen geiriau T Gwynn Jones, Niclas y Glais ac eraill, sydd wedi eu cynnwys mewn cyfieithiad yn y fersiwn hwn, yn eu hiaith wreiddiol.

**Llinos Dafis**

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

R.J Edwards and Sons
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i’w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

## Clarach

**Priodas aur**
Llongyfarchiadau i Alan a Janet Jones, Llygad yr Haul, ar ddathlu 50 mlynedd o briodas ar 24 Gorffennaf.

**Taith Gerdded Clarach**



Un o gyfres 'Taith Gerdded yr Wythnos' Cyngor Sir Ceredigion. Mae hon yn daith o 2 km/ 1.3 milltir gan ddechrau o Clarach.

Mae'r daith fer gylchol yma yn eich arwain trwy Barc Natur Coed y Cwm ac ar hyd y llwybr arfordir gan gynnig golygfeydd ar draws Bae Ceredigion.

**Cofiwch** ...

- Ymgyfarwyddo ag unrhyw ganllawiau cyfredol, lleol ynghylch teithio i wneud ymarfer corff.
- Cadw pellter cymdeithasol bob amser, parchur amgylchedd a dilyn y Cod Cefn Gwlad.

Mae mwy o wybodaeth am gynllun Taith Gerdded yr Wythnos ar gael ar dudalen Archwilio Ceredigion ar wefan y Cyngor Gallwch hefyd anfon neges e-bost i Countryside@ceredigion.gov.uk neu ffonio 01545 570881 a gofyn am gael siarad ag aelod o'r tîm Arfordir a Chefn gwlad. Pob hwyl!



**Llongyfarchiadau i Gruffudd Lewis, Clarach, pencampwr Crit Cymru (Ieuenctid) yn Nhrac Seiclo Marshtracks, y Rhyl ddechrau Medi.**

# Jamie yn curadu archif BBC a ryddhawyd i nodi 85 mlynedd o adloniant teledu

Mae academydd o Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Aberystwyth wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o greu casgliad archif newydd sy'n dathlu hanes cyfoethog y BBC o ddiddanu'r genedl. Dr Jamie Medhurst yw Prif Guradur yr archif *Entertaining the Nation*, sy'n rhoi cipolwg unigryw ar adloniant darlledu ar hyd y blynyddoedd trwy gyfrwng cyfweliadau a ryddhawyd yn ddiweddar o Gasgliad Hanes Llafar y BBC, yn ogystal â llu o ffotograffau na welir yn aml. Mae'r casgliad yn cael ei ryddhau i nodi 85 mlynedd o adloniant teledu, ac mae'n rhan o brosiect BBC History: *100 Voices That Made The BBC*.



Mae uchafbwyntiau'r archif yn cynnwys mewnwelediadau i sgetshis poblogaidd o'r rhaglen *Morecambe and Wise*, hanes dadleuol creu *Doctor Who* a'i hangenfilod arswydus, fformatau blaengar a arloeswyd yn *Sportsview*, dechreuadau digon di-nod y rhaglennu byd natur sydd bellach yn fyd-enwog, ac wrth gwrs y frwydr holl bwysig ymhlith rhaglenni teulu am gynulleidfa nos Sadwrn. Mae'r Casgliad hefyd yn cynnwys delwedd nas gwelwyd o'r blaen o'r act taflu cyllyll cyntaf erioed i gael ei ddarlledu, a berfformiwyd yn ystod adran adloniant ar y rhaglen *Here's Looking At You* yn 1936.

Mae'r prosiect archif *100 Voices that Made the BBC* yn gydweithrediad gyda Labordy Dyniaethau Sussex, Prifysgol Sussex; Canolfan Hanes y Cyfryngau, Prifysgol Aberystwyth; Adran y Cyfryngau a Chyfathrebu, Prifysgol Caerlŷr, a'r Amgueddfa Cyfryngau Genedlaethol.

Mae'r casgliad llafar llawn "100 Voices that made the BBC: Entertaining the Nation" ar gael yn: https://www.bbc.com/historyofthebbc/100-voices/entertaining-the-nation

## Colofn **Ben Lake** AS



Ar ddechrau tymor newydd yn y Senedd yn San Steffan ac yng Nghaerdydd, un o'r prif flaenoriaethau i mi a'r aelodau etholedig hynny sy'n cynrychioli ardaloedd arfordirol y gorllewin yw'r sefyllfa ail gartrefi.

Dangosodd adroddiad diweddar bod 6% o stoc dai Ceredigion bellach yn ail gartrefi neu'n dai gwyliau. Ry'n ni hefyd yn gwybod bod canran sylweddol o'r stoc dai flynyddol yn cael eu prynu fel ail gartrefi sy'n gwthio prisiau tai i fyny yn syweddol.

Un sgil effaith amlwg o hyn oll yw y bydd mwy o'n pobl ifanc ni yn cael eu gorfodi i adael ein cymunedau.

Mae hwn yn argyfwng a fydd yn dinistrio cymunedau os na chymerir camau brys gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cynllun peilot, a allai gynnwys newidiadau i drefniadau trethu a chynllunio, yn cael ei dreialu mewn rhan o Gymru. Mae'r llywodraeth hefyd yn bwriadu lansio Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg erbyn yr hydref. Ond mae'n rhaid cwestiynu a ydy hynny'n mynd ddigon pell?

Yr ofn yw y bydd rhagor o ymgynghoriadau a rhagor o gynlluniau peilot yn cymryd blynyddoedd i wneud gwahaniaeth – ac erbyn hynny bydd hi'n rhy hwyr i'n cymunedau gwledig. Mae gwir fygythiad y bydd yr argyfwng yn gadael yn ei sgil genhedlaeth goll o bobol ifanc sy'n cael eu gorfodi i adael eu milltir sgwâr oherwydd eu bod yn cael eu prisio allan o'r ardal lle cawson nhw eu geni a'u magu.

Mae Plaid Cymru eisiau gweld ymyriadau uniongyrchol i liniaru'r argyfwng, megis newidiadau i gyfreithiau cynllunio i ganiatáu i gynghorau osod cap ar nifer yr ail gartrefi, cau'r bwlch sy'n caniatáu i berchnogion ail tai gofrestru eu heiddo fel "busnesau" er mwyn osgoi talu premiwm treth y cyngor, a chyflwyno rheoliadau i dreblu'r tâl Treth Trafodiad Tir ar brynu ail eiddo. O'u hystyried a'u trafod yn ofalus, mae'r atebion yna – yr hyn sydd ei angen yw ewyllys gwleidyddol.

Mae'n ddyled arnom i'r bobl ifanc yn y cymunedau hyn i ddatrys yr argyfwng hwn a chaniatáu iddynt aros yn yr ardal y maent yn ei galw'n gartref.

# Y Borth

**Borth 2030**

Yn ystod misoedd cynnar 2021, daeth grŵp cymunedol bach ynghyd i ystyried syniadau ar gyfer dyfodol y pentref gyda'r bwriad o gynnal trafodaethau cymunedol ehangach er mwyn llunio atebion.

Roedd y fframwaith a ddefnyddiwyd gennym yn cydfynd â themau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Mynediad, Golwg ac Adfywio; Iechyd a Lles; Economi a Busnes Lleol; Diwylliant a'r Iaith Gymraeg; Cymuned; Amgylchedd, a Chydraddoldeb - Unedig a Pherthyn (Pobl Leol a Thwristiaid; Ifanc a Hen; Trigolion Newydd a Thymor Hir)

Y ffocws oedd holi 'Sut olwg fyddai ar y Borth gwell, hapusach, mwy diogel, cynaliadwy a ffyniannus yn 2030 a thu hwnt' ynghyd â 'Beth yw ein cyfleoedd a'n bygythiadau mwyaf' ac yna 'Sut mae cyrraedd yno?' Man cychwyn nid diweddglo yw'r ddogfen a grewyd gennym.

Rydym hefyd wedi sefydlu tudalen Facebook 'Borth 2030" a gwefan www.borth2030.wales lle mae modd darllen y ddogfen gyfan. Os ydych chi am ymuno â'r grŵp, anfonwch neges Facebook neu e-bostiwch mail@borth 2030.wales atom. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd ac yn dymuno cael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dr Andrea Hughes ar 01970 871304.

Yn yr hydref, rydym yn gobeithio cynnal digwyddiadau er mwyn cael adborth gan y gymuned gan ein bod yn awyddus i sicrhau ein bod yn cyrraedd cynifer â phosib o bobl yn ardal y Borth. Rhannwch y wybodaeth hon yn eang os gwelwch yn dda.

*Adroddiad Dr Andrea Hughes*

**Carnifal y Borth 2021**

Unwaith eto bu'n rhaid i Garnifal Y Borth, dan arweiniad Carol Bainbridge, fynd rhagddo heb orymdaith nag ymgynnull ar gaeau'r Neuadd Gymunedol. Gallai cynnal gorymdaith fod wedi bod yn bosibl mewn egwyddor, ond fe fyddai gweithredu'r gofynion olrhain ymhlith pawb sy'n cymryd rhan tra hefyd yn cadw pellter cymdeithasol wedi bod yn dasg amhosibl, fel y bydd pawb sydd wedi bod i'r Carnifal yn y gorffennol yn gwybod.

Er gwaethaf hyn, fe lwyddodd Ianto Thomas a Sue Dalton i gynhyrchu cylchgrawn y Carnifal gyda chefnogaeth gan ein holl fusnesau lleol, ac fe gynhaliodd y pwyllgor sawl digwyddiad llwyddiannus iawn, gan gynnwys Sioe Gŵn Carnifal gyntaf y Borth. Cafwyd cefnogaeth arbennig o dda a thipyn o hwyl, gyda chŵn ymwelwyr a lleol yn cystadlu am y gynffon sy'n ysgwyd fwyaf, y ci oedd yn edrych yn debycach i'w berchennog ac yn y blaen. Cyflwynwyd y gwobrau gan Frenhines Carnifal y Borth, Chloe Pemberthy, a Mark







Williams. Yn dilyn y sioe gŵn, cafwyd cyfle i roi cynnig ar ystwythder yr anifeiliaid mewn sesiwn arbennig dan arweiniad Liz Mullen, hyfforddwr cŵn o'r Borth, ac fe gafodd y cŵn i gyd amser hyfryd.

Drannoeth y sioe, cynhaliwyd ein Cystadleuaeth Cestyll Tywod, gyda mwy o deuluoedd nag erioed o'r blaen yn mynd ati greu cestyll, creaduriaid rhyfedd a phob math o bethau ar y traeth. Y penwythnos canlynol, mewn tywydd hafaidd braf, roedd talentau creadigol ar waith unwaith eto yn ein Gŵyl Gelf Sialc. Trefnwyd y digwyddiad hwn gan Dean Tweedy o Marvellous Murals, ac mae'n tyfu bob blwyddyn gyda mwy a mwy o artistiaid a theuluoedd yn cymryd rhan. Yn ffodus, mae yna ddarn hir o wal y môr ar gael i ni yn y pentre ac roedd y paentiadau a gynhyrchwyd i gyd yn hynod lliwgar a bywiog. Yn y naill ddigwyddiad a'r llall, roedd yn hyfryd gweld rhieni a phlant yn hapus yn gweithio gyda'i gilydd ar yr un prosiect.

Cafwyd cefnogaeth dda i'r Helfa Drysor hefyd, ond mae'n rhyfeddol sut y gall yr atebion i gwestiynau fynd o chwith rhwng Amy Pugh yn eu dyfeisio ddydd Sadwrn a'r digwyddiad ddydd Llun os yw pobl yn tynnu arwydd tŷ neu'n paentio wal! Cafwyd prynhawn heulog hyfryd hefyd yn Niwrnod Agored y Gerddi Cymunedol gyda'r te'n llifo a llond y lle o gacennau blasus, diolch i garedigrwydd y garddwyr. Ein digwyddiad olaf eleni oedd Ras Hwyaid gyffrous, pan oedd y Leri yn ei llawn lif. Roedd adfer yr holl hwyaid yn dipyn o waith a mawr yw ein diolch i Pete Davies a chriw yr RNLI am eu holl gymorth.

Yn ystod y Carnifal, roedd cyfle hefyd i bobl roi cynnig ar ateb cwestiynau andros o

## Cadeiriau Olwyn Traeth

Ar gais Cyngor Cymuned y Borth, fe drefnwyd bod dwy gadair olwyn arbennig ar gael yn y Borth yn ystod mis Awst.

Gydag olwynion mawr llydan, roedd y cadeiriau wedi'u cynllunio i fynd yn hwylus dros y tywod a'r cerrig ar y traeth.

Cafwyd benthyg y ddwy gadair gan Gyngor Sir Ceredigion ac fe'u cadwyd ger cwt yr achubwyr achub i'w defnyddio gan bobl ag anabledd neu bobl oedrannus oedd yn ei chael hi'n anodd i gyrraedd y traeth.

Cyfnod prawf yn unig oedd eleni i fesur y galw ond y gobaith yw y bydd y cadeiriau olwyn yn dychwelyd i'r traeth y flwyddyn nesaf.



**Delyth Pryce-Jones a Bryn Jones o Gyngor Cymuned y Borth yn rhoi prawf ar un o'r cadeiriau olwyn yng nghwmni Cliff Bates o Gyngor Cymuned Ceredigion.**

anodd yng Nghwis Ar-lein Ieuan Ellis a Diane Richards. Roedd angen meddwl y tu allan i'r bocs ar fwy nag un adeg! Ac yn olaf ond yn sicr nid y lleiaf pwysig, fe drefnodd Pat Richards dudalen 'Just Giving' unwaith eto gan godi dros £500 i'r Carnifal ei ddosbarthu rhwng grwpiau a sefydliadau lleol: www.justgiving.com/crowdfunding/patricia-richards

Rhwng popeth, roedd Carnifal y Borth 2021 yn un llwyddiannus iawn a diolchwn i bawb a fu'n trefnu ac yn helpu mewn digwyddiadau a'r rhai fu'n cymryd rhan. Ond croeswn ein bysedd y bydd modd cynnal y Carnifal yn ei holl ogoniant y flwyddyn nesaf!

*Adroddiad Pwyllgor Carnifal y Borth*

**Croeso i'r byd!**

Llongyfarchiadau mawr i Brogen Doyle a Dave Weir ar enedigaeth Rose a Hope. Cafodd y gefeilliaid eu geni yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae'r ddwy ferch fach bellach adre yn eu cartref yn y Borth ac yn prifio'n gyflym.

Llongyfarchiadau mawr hefyd ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf i Mike a Trudie Wilcox sy'n cadw Swyddfa'r Post yn Erwau Glas yn y pentref. Mae Albie bach a'i rieni Joe a Samantha yn byw ym Mhenparcau.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr eto i Rhian a Phill ar enedigaeth mab - Dewi Ifan - ar y 4ydd o Awst. Ŵyr i Jeanette Jones, Borth Uchaf.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Margaret Griffiths a'r teulu, Ffosygrafel, ar farwolaeth mam Margaret, sef Mrs Hazel Jenkins o'r Borth.

**Gweithgareddau Haf Canolfan Teulu y Borth**

Cafodd cyfres o sesiynau Haf o Hwyl eu cynnal gan Hwb Cymunedol y Borth yn ystod gwyliau'r ysgol. Prosiect wedi'i ariannu gan Senedd Cymru drwy Gyngor Sir Ceredigion oedd hwn.

Am ddau ddiwrnod yr wythnos yn ystod y gwyliau, cafodd ystod eang o weithgareddau chwarae eu trefnu ar ddarn hyfryd o dir y tu allan i Ysgol Craig Yr Wylfa. Diolch yn fawr i Kiera, Eleanor a Nathan am eu holl waith arbennig ac am ddarparu ystod mor helaeth o gyfleoedd chwarae ar gyfer pob oedran.

Diolch arbennig hefyd i Chris Corrish am weithio gyda'n Clwb Ieuenctid i ddylunio a phaentio murlun newydd ar gyfer wal allanol adeilad yr Hwb.

Yn ogystal â'r gweithgareddau Haf o Hwyl, fe ailgyflwynodd Martine Ormerod sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer grŵp Dod Ynghyd i bobl hŷn a bu Carol yn parhau gyda Her y Pedomedr.



Bu Kiera, Eleanor a Nathan yn cynnal llu o weithgareddau hwyliog i blant yn ystod yr haf.

**Cofio Rosemarie Waring**

Cynhaliwyd angladd Miss Rosemarie Waring o Morawel, Y Borth, ar ddydd Gwener 3 Medi. Bu'n gwirfoddoli am flynyddoedd lawer yn siop y bad achub yn y pentref ac yna yn Aberystwyth. Cafodd ei harch ei chludo i'r Amlosgfa gan aelodau lleol o'r RNLI, ac fe arweiniwyd y gwasanaeth gan gaplan yr RNLI. Bydd colled fawr ar ei hôl ymhlith ei theulu a'i chymdogion. Roedd yn berson hynod siriol a charedig, oedd bob amser yn barod i estyn llaw. Roedd yn caru cŵn a than fis Rhagfyr y llynedd, roedd ganddi gi bach arbennig o annwyl o'r enw Toby. Roedd ganddi ddiddordeb mawr yn hanes y Borth ac mewn hel achau teulu, ac roedd hi wastad yn barod i gynorthwyo eraill yn eu hymchwiliadau.



**Priodas par o'r pentref**

Llongyfarchiadau mawr i Owen a Katharine Lawrence a briododd ym Mhlas Nanteos ddiwedd mis Awst. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn y Borth lle cafodd Owen ei fagu, yn fab i Jackie Rose a Stephen Lawrence. Mae rhieni Katharine yn berchen ar siop sglodion y Surrey Café yn y pentref.



**Des yn dathlu'r 90**

Llongyfarchiadau i'r Athro Des Hayes, gynt o Dunstall yn y Borth, ar gyrraedd ei ben blwydd yn 90 mlwydd oed. Dymunwn pob hapusrwydd iddo ar gyrraedd y garreg filltir hon. Mae e a'i wraig Nansi bellach yn byw yn ardal Caerfyrddin.

**Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las**

Cafwyd haf prysur yn y Clwb Golff gyda nifer o gystadlaethau a diwrnodau arbennig. Dyma rai o'r uchafbwyntiau.

*Diwrnod y Llywydd*

Chwaraeodd 100 o aelodau ar ddiwrnod Nans Morgan, Llywydd y Clwb gyda the prynhawn a barbeciw i ddilyn. Casglwyd £1,650 tuag at yr elusen dewisiedig sef Mind Aberystwyth. Roedd yna nifer o wobrau a'r prif enillwyr oedd Jean Harrison yn adran y menywod a Patrick Jones yn adran y dynion. Diolch i Nans am ddiwrnod i'r brenin.

*Pencampwriaeth y Merched*

Angharad Basnett oedd enillydd y Bencampwriaeth Gross gyda sgôr arbennig dros ddeuddydd o 155 (77 a 78). Enillydd y Bencampwriaeth Nett oedd Margaret Roberts gyda sgôr arbennig eto o 142 (67 a 75). Llongyfarchiadau i'r ddwy.

*Diwrnod Capten y Dynion*

Ar ddiwrnod Capten Jeff Evans, chwaraeodd 87 o ddynion mewn timau o dri gyda Patrick Jones, Toby Spain a Graham Saunders yn ennill y brif wobr. Casglwyd £1,170 ar gyfer elusen y Capten, Canser y Prostad.

*Diwrnod Capten y Merched*

Cystadleuaeth ar gyfer timau o dri oedd ar ddydd Karen Evans, Capten adran y menywod gyda Debbie Jones, Breda Roberts a Jen Roberts yn dod i'r brig.

Casglwyd £800 tuag at elusen dewisiedig y Capten HAHAV. Diolch i Karen am ei holl waith trefnu.

*Cwpan Deulwyn Morgan*

Cwblhawyd cystadleuaeth knockout ar gyfer parau cymysg ar ôl sawl rownd, gyda Barbara Reece a Dylan Raw Rees yn curo Jean Harrison ac Athole Marshall yn y rownd derfynol. Llongyfarchiadau i'r pâr buddugol.

# Bow Street

**Oedfaon Capel y Garn am 10.00**

*Medi*
**19** Gweinidog
**26** Parch Wyn Morris

*Hydref*
**3** Noddfa
**10** Parch Judith Morris
**17** Gweinidog (10 – Garn; 5 – Bethlehem)
**24** Gweinidog (oedfa'r ofalaeth)
**31** Dan ofal Cynog Dafis

**Dyweddiad**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gwenllian Davies a James Albrighton, Tregerddan ar eu dyweddiad.

**Capel y Garn ym misoedd Gorffennaf ac Awst**

Bu cynulleidfa'r Garn yn cydaddoli bob bore Sul yn y capel, a thrist yw cofnodi ein bod wedi colli tri aelod selog yn ystod yr haf, sef Mrs Gwenda Edwards, Yr Arglwydd Elystan Morgan a Mrs Maureen Morgan. Cynhaliwyd gwasanaethau angladdol i'r tri yn y capel. Ar Fedi'r 4ydd cynhaliwyd cyfarfod coffa teilwng i Mrs Marian Jenkins, a fu farw ddechrau Ebrill 2020 yn ystod y clo mawr pan nad oedd hi'n bosibl i ddwyn pobl ynghyd at unrhyw ddiben.

Brynhawn Mercher, Medi 1af, daeth aelodau o Gymdeithas y Chwiorydd at ei gilydd i gael paned a sgwrs yng Nghrefftau Pennau. Cafwyd cyfle i brofi cacen ben blwydd Nans Morgan ac i ddymuno pen blwydd hapus iddi. Byddwn yn cyfarfod eto ar zoom ar Hydref 6ed.

**Genedigaethau**

Llongyfarchiadau i Sian a Martin Powell, Maes Ceiro, ar enedigaeth ŵyr bach.

Ganwyd merch fach i Ian a Kate, Tregerddan; ei henw yw Celyn. Llongyfarchiadau i Elina Davies, Bronaallt Llandre ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto.

**Symud ardal**

Ddiwedd Mehefin cyhoeddodd Esgob Andy fod y Parchg Rhun ap Robert wedi ei benodi yn Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Enlli yn esgobaeth Bangor. Mae Bro Enlli yn ymestyn o Bwllheli ar hyd arfordir Llŷn nes cyrraedd Aberdaron. Symudodd Rhun, Magda a'r plant, o Gastell-nedd i Bwllheli ddiwedd mis Awst Dymuniadau gorau iddynt yn eu hardal newydd.

**Hen Dŷ Newydd**

Rhyfeddwyd at alluoedd adeiladu Carwyn Lloyd Jones unwaith eto wrth iddo gymryd rhan yn y y gyfres Hen Dŷ newydd ar S4C dros y misoedd iwethaf.

**Priodi**

Dymuniadau gorau i Gwenith ap Robert ac Ian Blair, Aberystwyth, a briodwyd ar Orffennaf 5ed.

**Arholiadau**

Llongyfarchiadau i Gruff Ceiro Jones, mab Osian a Bethan Jones, Yr Wyddgrug, ac wyr Vernon a Dilys Gaerwen, a rei lwyddiant yn arholiadau TGAU gan lwyddo i ennill 13A*. Mae Gruff yn ddisgybl yn Ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug.

**Priodas aur**

Llongyfarchiadau i Gaenor a Gareth Jones, Hafle, ar ddathlu 50 mlynedd o briodas ar 24 Gorffennaf.

**Pen blwydd priodas**

Llongyfarchiadau i Gwynant a Lynn Phillips, Cae'r Odyn, ar ddathlu pen blwydd priodas 20 ml ganol Awst.

**Diolch**

Mae Gaenor a Gareth, Hafle, yn diolch yn fawr iawn i bawb am eu dymuniadau da a'r caredigrwydd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Noel Morgan, Brynmeillion, ar farwolaeth Maureen (Mojo) ar Awst 16. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel y Garn ar Awst 25 a derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Cancer Research UK trwy law y trefnydd Tom Eurfyl Jones, Tregaron.

Cydymdeimlwn hefyd â merched a theulu y ddiweddar Gwenda Edwards, Tregerddan, Gweler teyrnged.

Croeso i Nest Gwilym sydd wedi symud i'r cartref yn Bow Street.



**Chwiorydd y Garn**

Chwiorydd y Garn gyfarfu am baned yng Nghrefftau Pennau ddydd Mercher, 1 Medi.

**Gwenda Mair Edwards**



Merch Harri ac Olwen Williams, a anwyd, fel y bydde'n falch o ddweud, yn Nhywyn, Meirionnydd pan oedd ei thad yn weinidog yno, oedd Gwenda - yn hŷn o dair mlynedd na'i chwaer Sian. Tua chwech oed oedd hi pan symudodd y teulu i Waunfawr (Caernarfon) a thua 13eg pan symudwyd wedyn i Fangor. Roedd Gwenda yn mawrhau y cysylltiadau daearyddol yna i gyd, ond yn fwy fyth y cysylltiadau teuluol. Y gwreiddiau yn Sir Fôn a'r teuluoedd yn Lerpwl, Blaendulais (Seven Sisters) a Llundain, lle fydde nhw ymweld a threulio cyfnodau yn ystod gwyliau haf, a'r berthynas gyda'r cefnderwyr a'r cyfnitherod yn un glos a chynnes. Yn eu tro mi fydde'r teuluoedd yn ymweld â nhw ac aelwydydd Brynteg a Phenygeulan yn fwrlwm o hwyl wrth grwydro traethau Pen Llŷn a Sir Fôn, ac roedd yr hoffter o'r llecynnau hynny wedi aros gyda Gwenda ar hyd y blynyddoedd.

Roedd wedi rhoi ei bryd ar nyrsio yn gynnar iawn, ac fe gychwynnodd ei hyfforddiant yn y 'Royal' yn Lerpwl, cyn mynd ymlaen wedyn i hyfforddi fel bydwraig yn ysbyty Sully. Erbyn hyn roedd y teulu yn Aberystwyth a'i thad yn un o Athrawon y Coleg Diwinyddol, ac fe ddychwelodd Gwenda i Aberystwyth ac i'r hen ysbyty yn North Road - cyn i Bron-glais agor ym 1966. Roedd dylanwad yr aelwyd yn drwm iawn arni wrth gwrs mewn mwy nag un ystyr, ac ar un cyfnod roedd ei bryd ar fynd i'r maes cenhadol. Efalle fod hynny yn reswm pam yr aeth i Gynhadledd Genhadol y Pasg, yn y Barri. Cynhadledd bwysig a dylanwadol iawn yn ei dydd, yn cael cefnogaeth gan lawer o bobl ifanc yn eu harddegau hwyr a'u ugeiniau cynnar. Un o fynychwyr cyson y gynhadledd oedd W.J.Edwards, ac yno y cychwynnodd perthynas Gwenda a Bill.

Priodi yn Siloh, Aberystwyth ar Orffennaf 1af 1967 a chartrefu yng Ngarthgwyn, Llanuwchllyn, a dechrau nyrsio yn adran famolaeth Ysbyty Dolgellau tan geni Nest. Rhoi'r gore i'w gwaith proffesiynol am ddeunaw mlynedd i fagu'r merched, cyn dychwelyd am gyfnod cyn symud i Gaerfyrddin. Rwy'n pwysleisio 'gwaith proffesiynol oherwydd fuodd Gwenda erioed heb waith ar hyd y blynyddoedd - a fuodd hi erioed yn segur chwaith.

Wrth feddwl amdani geiriau o Rhufeiniaid oedd yn dod i'r meddwl yn syth. Ar ddiwedd y llythyr mae Paul yn cyflwyno gwraig o'r enw Phebe i'r eglwys: Ac meddai ***Derbyniwch hi yn***

***enw'r Arglwydd, oherwydd y mae hithau wedi bod yn gefn i lawer, ac i mi yn bersonol.***

Dyna chi deyrnged i unrhyw un, bod yn gefn i arall. a dyna Gwenda i mi, yn gefn.

i deulu – i Bill a'r merched, i'r eglwys a'r gymuned yn Llanuwchllyn, Caerfyrddin a Bow Street; i bopeth da a dyrchafol.

Medde Tudur Dylan amdani:
Parha, fel y Gwenda gynt - yn darian
i dair rhag bob helynt.
Arhosol ymhob croeswynt
yn graig i'w gwr rhag y gwynt.

**Talfyriad o deyrnged y Parchg Hywel Richards.**

**Genedigaethau**


Llongyfarchiadau i Rhodri a Kiera Louise Evans ar enedigaeth bachgen bach - Henry Arthur Evans – ar Orffennaf 16; ŵyr i Janet a Geraint Evans, Bryncastell.

i Ashley a Dewi Huw Owen ar enedigaeth Alys Elain Owen ar Orffennaf 10fed; chwaer fach i Ifan.

Llongyfarchiadau i Philip Hesden, 43 Tregerddan, ar ddod yn dad-cu unwaith eto. Ganwyd efeilliaid i'w ferch Carol yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd ar y 13eg o Orffennaf. Eu henwau yw Ifan Jac Philip a Ianto Sion Philip. Mae Carol yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac mae'n byw yn Rhiwbeina, Caerdydd.

**Graddio**

Llongyfarchiadau mawr i Nia Phillips, Cae'r Odyn ar gael gradd Baglor Mewn Gwyddoniaeth mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol o Brifysgol Abertawe. Mae'r teulu i gyd yn prowd iawn ohoni am weithio mor galed mewn amgylchiadau anodd. Dim seremoni gradd eleni oherwydd Covid 19 ond byddwn yn edrych ymlaen i ti gael dy gap a gown mewn seremoni y flwyddyn nesa. Da iawn ti!





**Bu Huw Bates, Seren a Charlie yn ddigon ffodus i ddal y cerddwr Speedo Mick (Michael Cullen) yn cerdded trwy Bow Street! Fe gerddodd y gwr yma 1,200 milltir hyd at ?? gan godi dros £100,000 i elusennau lleol iechyd meddwl.**

Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Rees, Brysgaga raddiodd fel milfeddyg yn Lerpwl.

**Gwellhad buan**


Anfonwn ein cofion at Meinir Lowry fu yn Ysbyty Abertawe yn ddiweddar.

**Llyfrgell Arad Goch**

Diolch yn fawr i Nest Gwilym am gyfrannu casgliad o ddramâu Cymraeg ac i Gareth William Jones am gyfrannu casgliad o'r cylchgrawn *Plays and players* o'r 70au. Bydd y ddau gasgliad yn ychwanegiadau difyr at y llyfrgell yng Nghanolfan Arad Goch.

**Clwb Pêl-droed Bow Street**

Wrth i'r tymor newydd gychwyn, mae'r clwb wedi cychwyn ar fenter newydd, sef cynhyrchu rhaglen ar gyfer bob gêm gartref. Bydd y rhaglen ar werth wrth y gât, ac fe fydd yn cael ei chyhoeddi ar-lein ar y nos Wener cyn y gêm. Yn y llun gwelir clawr rhaglen y gêm yn erbyn Ceri, ddiwedd Gorffennaf (pan enillodd y Piod o 3–1). Y bwriad, yn ôl Wyn Lewis, cadeirydd y clwb, yw adlewyrchu beth sy'n digwydd yn y gymuned, yn ogystal â hynt a helynt y clwb, rhestr gemau'r tymor, canlyniadau ac ati. Pob lwc i'r Piod yn y fenter newydd, a mynnwch eich copi!






**Angharad Lewis, Elin a Nia Gore yn ennill £1,000 ar Ffansi Ffortiwn gyda Gerallt Pennant ar S4C. Caiff yr arian ei rannu rhwng Beiciau Gwaed Cymru ac Uned Cemotherapi Bron-glais.**






**Cerdded a Chlonc – dathlu Gŵyl Bro 360 yn ardal *Y Tincer***

Ar noson braf ddechrau Medi aeth criw o dros 30 o gerddwyr o bob oed ar daith hamddenol o Dafarn y Rhydypennau, ymlaen i Landre, trwy'r hen bentref a thros y gefnen i gyferiad Bryncastell, gan orffen y daith yn nhafarn y Blac. Roedd hwn yn rhan o ddigwyddiadau Gŵyl Bro 360 oedd yn cael eu cynnal ledled Cymru. Cafwyd noson hwyliog dros ben, a'r tywydd o'n plaid, yn bendant. Diolch i Bro 360 am helpu trefnu'r noson - ewch i'w gwefan am hanes rhai o'r digwyddiadau eraill, a digon o luniau. Diolch i bawb am eu cwmni a'u cefnogaeth.



# Penrhyn-coch

**Horeb – Suliau**
Cynhelir oedfaon dan y cyfyngiadau presennol fel a ganlyn.

*Medi*
26 10.30 Y Parchg Peter Thomas
*Hydref*
10 10.30 Y Parchg Peter Thomas
31 2.30 Y Parchg Peter Thomas

**Clwb Sul**
Bydd y Clwb Sul yn cyfarfod trwy Zoom am 10.30 – cysyllter â Wendy Reynolds os am ynuno.

*Medi*
19 Clwb Sul Horeb
26. Clwb Sul ar y cyd
*Hydref*
17 Clwb Sul Horeb
*Tachwedd*
21 Clwb Sul Horeb
28 Clwb Sul ar y cyd.

**Medi poeth**
Cofnodwyd tymheredd o 30.7 yng Ngogerddan ar 7 Medi - y diwrnod cynhesaf ym Medi ers 1961.

**Cymdeithas y Penrhyn**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb nos Fercher 18 Awst. Penderfynwyd parhau i gyfarfod trwy zoom am eleni. Penodwyd swyddogion fel a ganlyn am 2021/22 ac aed ati i drefnu rhaglen am y flwyddyn.

Cadeirydd: Gwerfyl Pierce Jones; Is-Gadeirydd: William Howells; Ysgrifennydd: Ceris Gruffudd; Ysgrifennydd Aelodaeth: Carwen Fychan; Trysorydd: Eirian Reynolds; Swyddogion y Wasg: Brenda Williams. Paratowyd rhaglen amrywiol fydd yn cynnwys sgyrsiau gan Bethan Wyn Jones, y naturiaethwraig a Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl newydd Dyfed-Powys. Cysylltwch gyda Ceris.Gruffudd@gmail.com am fanylion ymuno.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Jane Jenkins, Kerry a theulu Garej Tŷ Mawr ar farwolaeth brawd Jane – John Eilir Evans, Llanilar (Llety Gwyn, Llangwyryfon gynt) ar Fehefin 3ydd.

**Gwobr cyfieithu**
Llongyfarchiadau i Lowri Mair Jones, Dôl Helyg, disgybl yn Ysgol Gyfun Penweddig am ennill y wobr gyntaf o £100 mewn cystadleuaeth gyfieithu i ddisgyblion Bl10-13 Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Da iawn ti Lowri!

**Canlyniadau Lefel A**
Llongyfarchiadau i Ceri Garratt, Ger-y-llan, ar ei chanlyniadau lefel A; pob hwyl ar y cwrs Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe.
i Rhys James, Dôl Helyg, ar ei ganlyniadau lefel A ac am ennill dwy ysgoloriaeth – Gwobr Teilyngdod yn yr Arholiadau Mynediad ac Ysgoloriaeth Partneriaeth Penweddig.

**Priodas aur**
Llongyfarchiadau i Pam ac Alun John, Ger-y-llan, ar ddathlu 40 mlynedd o briodas ddiwedd yr haf.

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Joe Scannell raddiodd ym mis Gorffennaf o Brifysgol Surrey gyda gradd Dosbarth Cyntaf mewn Theatr. Dymuniadau gorau ar y cam nesaf yn Llundain.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Angharad Fychan a'r teulu, Glanrafon, ar farwolaeth modryb i Angharad yn Rhuthun.

Hefyd â Euros ac Elizabeth Evans a Huw, Taliesin, ar farwolaeth eu mab Dyfed.

**Genedigaethau**
Llongyfarchiadau i Caleb a Paige Spencer, Caerdydd, ar enedigaeth merch fach – Halle – ar Awst 12fed.

Llongyfarchiadau i Moira Wrigley, Ger-y-llan, ar enedigaeth wyres fach – Scarlett Yvonne – nith fach i Victoria.

**Dychwelyd**
Cofion at Lyn Hughes sydd bellach wedi dychwelyd i'w gwaith yn Kuwait ar ôl oediad hir ar y siwrne wreiddiol a chyfnod adref.

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau i Elin Haf, Y Ddôl Fach ar ei dyweddiad canol Gorffennaf gyda Kristy Hopkins.

i Rachel a Dyfan, Ger-y-cwm, ar eu dyweddiad ar Awst 4ydd

ac i Laura a Steff, Ger-y-cwm ar eu dyweddiad ar Fedi'r 2il
Dymuniadau gorau i'r tri chwpl.

**Rhan mewn cyfres deledu**
Mae Owen Jac – ŵyr Sue a Mervyn Hughes, Ger-y-llan, – i'w weld yn rheolaidd ar nosweithiau Gwener ers Medi 3ydd mewn cyfres newydd ar Cyw. Mae'r gyfres yn gyd-gynhyrchiad S4C gyda Channel 5 (y fersiwn Saesneg yn dwyn y teitl The World according to Grandpa), ac wedi seilio ar lyfrau Chris Heath o'r un teitl.

Mae bob pennod yn dechrau gyda chwestiwn i Taid (a chwaraeir gan yr actor Danny Grehan) gan un o'i wyrion neu wyresau. Mae ei ateb doniol, llawn dychymyg yn dod yn fyw gyda help pyped ac animeiddiad arbennig. Daw'r ateb ffeithiol gywir i ddilyn gan Heti'r gwningen hoffus.

Derbyniodd y gyfres gyfraniad gan Young Audiences Content Fund (YAC Fund) y British Film Industry, sy'n gronfa wedi'i ariannu gan y Llywodraeth gyda'r nod o greu prosiectau creadigol ac ysbrydoledig ar gyfer plant a phobl ifanc.

Ffilmiwyd y gyfres yng nghanol cyfyngiadau tyn cyfnod y clo ar ddechrau'r flwyddyn, yn dilyn apêl ar Facebook a'r we yn gwahodd plant i ymgeisio i fod yn aelodau o'r cast. Ac yn sgîl amodau'r cyfnod, cynhaliwyd





**Cyngerdd telynau yn Eglwys Penrhyn-coch**
Roedd Cyngerdd Gŵyl Telynau Cambria yn Eglwys S Ioan, Penrhyn-coch nos Sul 29 Awst yn un arwyddocaol.

Helen Naylor o Delynau Cwm Derwent oedd yn gyfrifol am drefnu'r cyngerdd. Roedd yn ffrwyth gwaith caled gan diwtoriaid a myfyrwyr oedd yn mynychu Gŵyl Delynau Cambria a drefnwyd gan gwmni Telynau Cwm Derwent dros benwythnos hir gŵyl y banc. Roedd Helen yno gyda'i myfyrwyr ynghyd



**Priodas**
Llongyfarchiadau i Rhian Haf – gynt o Glanstewi a Spike Connell ar eu priodas ym Mhortmeirion ar Awst 27. Yn y llun gwelir hwy gyda'r plant – Greta ac Eban.

y profion sgrin a'r ymarferion i gyd dros y we.

"Nes i wireddu breuddwyd wrth weithio ar y gyfres yma; roedd y broses yn un eitha' gwahanol oherwydd Covid, ond ro'n i'n falch i gael rhywbeth i edrych ymlaen ato, a gweithio wyneb yn wyneb gyda phobl" meddai Owen Jac sy'n ddisgybl yn Ysgol Penglais ac yn chwarae rhan Seth.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad gyda Mary Thomas, Llys Myrddin, Caryl a Nia a'u teuluoedd ar farwolaeth sydyn Brian ar Awst 2il. Cynhaliwyd angladd cyhoeddus yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth ar 16 Awst. Derbyniwyd cyfraniadau er cof tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon a/neu Ambiwlans Awyr Cymru d/o Selwyn Evans.

**Newid swydd ac ardal**
Dymunwn yn dda i Haydn Foulkes (Maesyrefail gynt) sydd wedi cael swydd yn Archifdy Gogledd Ddwyrain Cymru ac o'r herwydd wedi dychwelyd i fyw i Lanrwst ar ol gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol am 32 mlynedd.

**Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Gronw Downes, Glanrafon, a ddewiswyd yn aelod o Fand Pres Ieuenctid Cymru ar gyfer 2021. Mynychodd gwrs yng Nghaerdydd dros benwythnos Gŵyl y Banc fis Awst.

**Gwellhad buan**
Da deall fod Alun Hughes, Ger-y-llan, yn gwella ar ôl ymweliadau â ysbytai Bron-glais a'r Waun, Caerdydd yn dilyn cwymp.

**Gwesty newydd ym Mhenrhyn-coch**
Mae yna westy newydd wedi agor ym Mhenrhyn-coch, sef gwesty'r trychfilod yng ngardd gymunedol y pentref wrth Neuadd yr Eglwys. Mae croeso i unrhyw un ymweld â'r gwesty i weld sut mae'r pryfetach yn byw.

Project a ddatblygwyd dros y misoedd haf oedd hwn, ac estynnwn ddiolch i'r nifer a fu mor barod gyda'u cymorth wrth greu a llunio'r gwesty. Crëwyd yn ei gyfanrwydd o ddefnyddiau wedi'i ailgylchu.

Mae pryfed a thrychfilod yn wynebu amser caled wrth iddi fynd yn fwy anodd iddyn nhw ddod o hyd i gorneli bach diarffordd a holltau i gysgodi, byw a magu eu rhai bach. Un ffordd dda o wneud hyn yw trwy godi 'tai' neu 'westai' ar eu cyfer. Bydd pob math o fwystfilod bychain yn gwerthfawrogi lle fel y tŷ trychfilod i gysgodi dros y gaeaf.

Mae yna lwyni, coed a blodau addas ar gyfer y trychfilod yn yr ardd yn barod. Yn y flwyddyn nesaf, bydd gennym adran o flodau gwyllt wedi'i hau yn arbennig ar gyfer y gwesteion, wrth ddatblygu cornel arall o'r ardd.

Fel arfer ceir 2,000 a rhagor o wahanol rywogaethau o drychfilod mewn gardd! Ychydig iawn iawn ohonyn nhw sy'n achosi unrhyw niwed i'n planhigion ac mae llawer mwy ohonyn nhw yn help i reoli'r trychfilod sydd yn gwneud niwed. Wrth ddarparu cysgod addas gallwn gynyddu'r nifer o drychfilod 'llesol' yn yr ardd

Gobeithio y byddwn yn cynnig cyfle i addysgu mwy am sut mae ecosystemau cytbwys yn gweithio wrth ddenu mwy o bryfetach, gwenyn, pryfed cop, pili-palaod, moch bach y coed, cantroed a.y.y.b.

Cafwyd llawer o fwynhad wrth greu'r gwesty a gobeithio y cewch chwithau'r un mwynhad wrth nodi'r datblygiadau ar ychwanegiadau o fewn yr ystafelloedd en-suite dros y misoedd nesaf.





â'i chyd-delynorion Harriet Earis, Elin (y Delyn) Lloyd, a Katy Bustard (o Iwerddon).

Cafwyd noson hyfryd o gerddoriaeth fyw ac roedd yn dda clywed rhai o fyfyrwyr ieuengaf Telynau Cwm Derwent – rhai sy'n dal yn yr ysgol gynradd – yn arddangos eu sgiliau cerddorol wrth berfformio gyda hyder.

Cyflwynwyd y noson gan y Parchg Lyn Dafis, ac wrth groesawu pawb i'r digwyddiad fe gymerodd y cyfle i ddiolch i'r rhai oedd wedi gweithio'n galed i sicrhau ei bod hi'n bosib cynnal y cyngerdd yn yr eglwys yn y lle cyntaf. Diolchodd hefyd i bawb wnaeth ddod ac i'r perfformwyr am roi o'u hamser. Mae'r arian a godwyd ar y noson yn mynd at gefnogi gwaith Eglwys S. Ioan.

Dyma'r tro cyntaf i ddigwyddiad cyhoeddus, ar wahân i wasanaethau'r Sul, gael ei gynnal yn yr adeilad ers rhai misoedd. Felly roedd yna elfennau o lawenydd ac o betrusrwydd yn rhan o'r gweithgaredd.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

**Swydd newydd**

Mae'r Parchg Lyn Dafis yn gweinidogaethu yn yr ardal hon ers dros chwe blynedd bellach. Nos Lun, 26 Gorffennaf cafwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Llanbadarn Fawr, o dan arweiniad yr Hybarch Eileen Davies, Archddiacon Ceredigion, i drwyddedu Lyn i fod yn Weinidog Cyswllt yn Ardal Weinidogaethol Bro Padarn a hefyd yn Swyddog dros y Gymraeg a Dwyieithrwydd yn Esgobaeth Tyddewi. Bu gohebydd y Tincer yn holi Lyn be mae hyn yn ei olygu.

Yn gyntaf, llongyfarchiadau ar y swydd neu swyddi newydd.



Diolch yn fawr. Dros y chwe blynedd diwethaf dwi wedi dod i deimlo'n gartrefol iawn yn yr ardal. Er mod i wedi byw yn Aberystwyth ers deng mlynedd ar hugain mae'n ddiddorol pa mor wahanol yw bywyd pentref, hyd yn oed pentref mawr fel Penrhyn-coch. Ac er fy mod i wedi teimlo'n gartrefol yn y dref mae byw mewn ardal wledig wedi f'atgoffa yn aml iawn o'm magwraeth ar Fynydd Preseli yn Sir Benfro.

**Ble yn union yw Ardal Weinidogaethol Bro Padarn?**

Mae Bro Padarn yn ardal eang yn ymestyn o Eglwys-fach hyd at Eglwys Newydd, Hafod yng Nghwmystwyth. Yn swyddogol un plwyf yw'r ardal bellach yn cynnwys deuddeg eglwys i gyd, gan gynnwys holl gynulleidfaodd yr Eglwys yng Nghymru yn ardal y Tincer. Bydda i'n cyd-weithio gyda Deon yr Ardal Weinidogaeth, y Canon Andrew Loat, a thîm o weinidogion gwirfoddol lleyg ac wedi'u hordeinio.

**Rydych bellach yn Weinidog Cyswllt. Beth yw ystyr hynny? Fydd eich gwaith yn lleol yn newid? Fyddwch chi'n dal i fyw ym Mhenrhyn-coch?**

Dwi'n siŵr i lawer bydd y teitl 'Gweinidog Cyswllt' dim ond yn cadarnhau eu rhagfarn bod yr Eglwys yng Nghymru yn dwlu ar deitlau! Mae'r teitl yn adlewyrchu fy mod i'n gweithio'n rhan amser ym Mro Padarn ond bydd y swydd yr un fath. Bydda i'n arwain gwasanaethau ar draws y plwyf ond yn canolbwyntio ar ardal Penrhyn-coch a Bont-goch ac yn parhau i fyw yn y Ficerdy.

**Fe fyddwch yn treulio hanner eich amser bellach yn Swyddog y Gymraeg a Dwyieithrwydd Esgobaeth Tyddewi? Be fydd hynny'n ei olygu? Oes swyddogion cyffelyb yn yr esgobaethau eraill?**

Mae'r swydd yn un newydd. Ei bwriad yw hyrwyddo a datblygu'r esgobaeth fel sefydliad dwyieithog a datblygu ein gallu i genhadu a gweinidogaethu yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Bydda i hefyd yn gweithio i sicrhau fod yr esgobaeth yn ei bywyd o ddydd i ddydd yn gweithredu ei pholisi iaith yn briodol. Gan taw swydd newydd yw hon mae gen i ac mae gan yr esgobaeth lawer o waith dysgu a dwi'n disgwyl i hynny fod yn heriol ar brydiau. Mae holl esgobaethau Cymru â swyddog iaith ac mae rhyw hanner ohonyn nhw yn derbyn cyflog am y gwaith hwnnw.

Diolch yn fawr iawn, a phob dymuniad da gyda'r ddwy swydd!

**Newid aelwyd a swydd**

Dymuniadau gorau i Sioned a Steff, sydd wedi symud Rhos Helyg, Gogerddan – un o'r tai arferai fod yn berchen y Brifysgol. Gobeithio fod Sioned wedi setlo i'w swydd newydd yn y Brifysgol.

**Tîm Cyntaf CPD Penrhyn-coch**

Mae CPD Penrhyn-coch wedi cael dechreuad cadarn iawn i'w tymor gan gael 8 pwynt allan o'i 7 gêm gyntaf a mynd ymlaen i'r 16 diwethaf yng Nghwpan Nathaniel a'r 32 diwethaf yng Nghwpan Cymru – wrth ennill gêm dydd Sadwrn diwethaf 4-1 yn erbyn Ynys-hir Albions gyda goliau gan Geoff Kellaway, Steffan Gittins, Harri Horwood a Josh Shaw yn sicrhau eu bod trwyddo i'r trydydd rownd. Y gêm nesaf yng Nghwpan Cymru fydd yn erbyn Saltney i ffwrdd ar y 25ain o Fedi.

Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 24 | Penrhyn-coch 1 Rhuthun 1 |
| 27 | Penrhyn-coch 0 Bangor 1 |
| 31 | Llangefni 1 Penrhyn-coch 5 |

Awst

| | |
|---|---|
| 7 | Cwpan Nathaniel – Penrhyn-coch 2 Seintiau Newydd 1 |
| 14 | Penrhyn-coch 0 Bae Colwyn 4 |
| 12 | Trefyclo 2 Penrhyn-coch 3 |
| 28 | Airbus UK Brychdwn 6 Penrhyn-coch 0 |

**Eilyddion**

Dechreuodd yr Eilyddion yng Nghynghrair newydd Canolbarth Cymru gyda 2 gêm



Llun: Beverley Hemmings

gyfartal a cholli dau mewn cynghrhair dda iawn – gyda'r Clwb yn defnyddio chwaraewyr ifanc lleol mewn gêmau o safon a fydd gobeithio yn eu galluogi i dorri fewn i'r Tîm cyntaf. Cafwyd gêm dda iawn wythnos diwethaf gyda gêm gyfartal haeddiannol i ffwrdd yng Nghegidfa (Guilsfield) gyda'r Capten Rhydian Morgan yn dod a'r tîm yn gyfartal gyda peniad godidog bron ar ddiwedd y gêm yn y 90 funud.

*Gorffennaf*

| | |
|---|---|
| **30** | Dolgellau 5 Eilyddion Penrhyn-coch 3 |

*Awst*

| | |
|---|---|
| **5** | Caersws 2 Eilyddion Penrhyn-coch 2 |
| **21** | Llandrindod 2 Eilyddion Penrhyn-coch 1 |

*Medi*

| | |
|---|---|
| **4** | Cegidfa (Guilsfield) 1 Eilyddion Penrhyn-coch 1 |

Adroddiad gan Kevin Jenkins, Cadeirydd CPD Penrhyn-coch




Eleri a Riva, dwy aelod o Brownies Penrhyn-coch, cyn ac ar ôl torri eu gwallt i'r elusen *Little Princess Trust*. Da iawn chi.

# Enwau lleoedd

Angharad Fychan



Lleolir fferm y *Winllan* (SN686890) yn uchel ar y gefnen sy'n gwahanu Cwm Tŷ-nant a Chwm Ceulan, heb fod ymhell o aber afon Cyneiniog i Eleri islaw Pompren Geifr.




Map 6" yr Arolwg Ordnans (SN 68 NE) 1964
Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban (CC BY 4.0)


Digwydd y cofnod cynharaf o'r enw mewn dogfen o gasgliad W. Isaac Williams (LlGC) yn 1710/11 sy'n enwi 'James Evans of *Winllan*', ond ceir cyfeiriad mwy penodol at y fferm ei hun mewn dogfen arall o'r un casgliad yn 1725 lle sonnir am 'the messuages and lands called *Tythin y Winllan* otherwise *Tythin Bwlch y Bleiddbwll*'.

Os oedd *Tyddyn Bwlch y Bleiddbwll* yn enw amgen am y *Winllan*, rhaid mai *Bwlch y Bleiddbwll* oedd y bwlch yn y gefnen rhwng Cwm Tŷ-nant a Chwm Ceulan y tu cefn i'r fferm. Ystyr *bleiddbwll* yw 'twll yn y ddaear wedi ei orchuddio â changhennau neu frigau ar gyfer dal bleiddiaid', ac fe'i gwelir mewn enwau lleoedd yn y ffurf *bleiddbwll* a'r ffurf lafar *bribwll* (gweler Cledwyn Fychan: *Galwad y Blaidd* (2006) t.88-94).

Digwydd yr elfen *gwinllan* hefyd yn yr enw *Neuadd y Winllan* (SN686887) sydd led cae neu ddau islaw'r *Winllan* ar lan ogleddol afon Cyneiniog, er mai fel *Neuadd* ar ei ben ei hun yr ymddengys yn yr enghreifftiau cynharaf ohono yng nghasgliad W. Isaac Williams: *Noyath* yn 1735, a *Neiodd* yn 1749/50.

Heddiw, byddwn yn tueddu i feddwl am *winllan* fel '*darn* o dir ar gyfer tyfu gwinwydd', ond ei ystyr arferol mewn enwau lleoedd yw 'coedlan neu blanhigfa' neu 'ddarn o dir wedi ei amgáu ar gyfer tyfu coed'.

Mae'n ddifyr nodi, fodd bynnag, i enw fferm y *Winllan*, Cwm Tŷ-nant, gael ei gyfieithu i'r Saesneg *vineyard* (gan gamdybio mai dyna'r ystyr yn hytrach na 'choedlan neu blanhigfa') yn un o ddogfennau casgliad W. Isaac Williams yn 1689, ac yn ewyllys Evan Morris Reignald yn 1694 (LlGC):


to Evan Thomas of Vineyard

LlGC: Ewyllys Tyddewi 1694/102
http:/hdl.handle.net/10107/821564

Ceir yr elfen *gwinllan* yn gyffredin mewn enwau lleoedd yng Ngheredigion, megis *Winllan*-wen (SN722765), Mynydd Bach, Pontarfynach; *Tanwinllan* (SN463612) ar gwr deheuol Aberaeron; a *Blaenwinllan* (SN319484), ger Glynarthen.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

Ry'n ni'n falch iawn o allu cyhoeddi bod *Ar Drywydd Enwau Lleoedd*, (Y Lolfa) ein cyfrol i anrhydeddu'r Athro Gwynedd O. Pierce ar ei ben blwydd yn gant oed, bellach wedi ei chyhoeddi, ac ar gael mewn siopau llyfrau.









# Capel Bangor

**Suliau Pen-llwyn am Medi a Hydref:**

*Medi*

**5** 2.00 Dr. Watcyn James (Gweinidog) Oedfa Gymun
**19** 5.00 Y Parchg Judith Morris
**26** 2.00 Dr. Watcyn James

*Hydref*

**10** 10.00 Dr. Watcyn James Gwasanaeth Diolchgarwch y Teulu
**24** 10.00 Y Parchg Ifan Mason Davies
**31** 4.00 Y Parchg Judith Morris *Dalier sylw 4 ac nid 5 o'r gloch* *Croeso cynnes i bob un*

**Teulu Gwarcwm**

Yn rhifyn Mehefin o bapur bro Lerpwl a Manceinion – *Yr Angor*, ceir erthygl ddifyr gan y Parchg D. Ben Rees am ddau frawd a chwaer o deulu Gwarcwm – _"Teulu Richards o Ben-llwyn: pobol Stanley Road, Bootle".

Richard Richards (1862-1934) oedd y cyntaf o Warcwm i fynd i lannau Merswy yn bymtheg oed. Roedd o yn fardd ac yn un o nythaid o feirdd Cymraeg yn Bootle. Gwelir ei gerddi yn *y Brython* yn achlysurol – cerddi hiraethus, crefyddol.

Dilwyd ef gan ei frawd David Richards (1864-1935) – fu'n athro ysgol Sul am ddeng mlynedd ar hugain ac Arolygwr yr Ysgol Sul yn Stanley Road ond ei waith pennaf oedd fel Ysgrifennydd Pwyllgor yr Eglwys i ofalu am y rhai o'r eglwys aeth i ryfel – 230 allan o 460 aelod. Roedd hefyd yn aelod brwd o Glwb Bowlio y Cymry yn Bootle

Eu chwaer – Mrs Margaret Evans (1846-1945) – oedd yr olaf o'r teulu i fynd i'r ardal. Bu hi yn ffyddlon i waith cenhadol yr eglwys a bu hithau yn athrawes ysgol Sul ar y plant bach.

Yn ôl Heulwen Lewis y cofnod gyntaf sydd yn llyfr y Fynwent Pen-llwyn yw marwolaeth Thomas Richards, Gwarcwm ym mis Gorffennaf 1891, dim yn dweud ei fod yn fedd dwbwl o gwbl. Yna yn 1894 claddwyd baban Mary Blackwell, Gwarcwm ym mis Chwefror ac Elizabeth Blackwell, Gwarcwm yn 1904.



**Merched y Wawr Melindwr**

Daeth llawer o aelodau Cangen Merched y Wawr Melindwr at ei gilydd prynhawn Sadwrn olaf mis Mehefin i gloi'r flwyddyn gyda picnic. Roedd y tywydd a'r lleoliad wrth ein bodd yng Nghwmrheidol. Edrychwn ymlaen i weld ein gilydd yn y cyfarfod ymaelodi ym mis Medi.

**Canlyniadau**

Llongyfarchiadau i ieuenctid y pentref, am eu llwyddiant yn arholiadau y tymor a aeth heibio, a fu yn dipyn o her iddynt yn ystod cyfnod y Covid.

Mae Luned Jones, Tangeulan, yn hapus gyda'i chanlyniadau, ac yn mynd yn ôl i Benweddig i wneud ei Lefel A mewn Hanes a Chymraeg.

Mynd i astudio Cymraeg ac Astudiaethau Ffilm a Theledu, a wna Nannon Jones, Tangeulan, ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae Ffion Williams, Brynrheidol, ar ei ffordd i Brifysgol UCL yn Llundain, i astudio Hanes a Gwleidyddiaeth. Bu Kate ei chwaer yn yr un coleg, ac eleni ar ei blwyddyn allan yn Bologna yn yr Eidal yn dysgu Eidaleg.

Ar hyn o bryd mae Alaw Evans ar ei chwrs ym Mhrifysgol De Cymru, yn astudio Goruwchwyliaeth Lletygarwch, Rebecca Jones Williams ym Mhrifysgol Dinas Birmingham, yn astudio Bydwreigiaeth a Haf Evans ym Mhnrifysgol Abertawe yn gwneud cwrs nyrsio.

Llongyfarchion i chi i gyd ar ddechrau cyfnod newydd, a boed pob dymuniad da i'r dyfodol. ac hefyd i bwy bynnag arall sydd wedi bod yn llwyddiannus.

**Gyrru**

Deallwn fod Llŷr Evans, Trering, wedi pasio ei brawf gyrru yn ddiweddar. Da iawn ti. Llongyfarchiadau Llŷr, yn gyfleus iawn a thithau yn gwneud cwrs Amaethyddiaeth yn Llysfasi. Cymer ofal.

**Swydd newydd**

Mae Ieuan Evans, Rhiwarthen Isaf, wedi dechrau ei swydd newydd fel Arweinydd tim Cynllunio gyda chwmni "Storth Machinery" yn Kendall. Ei waith fydd dylunio peiriannau i'r Cwmni. Pan oedd ym Mhrifysgol Harper Adams, bu Ieuan yn gweithio ar ei flwyddyn allan, i "Storth Machinery" ac y mae erbyn hyn wedi cyflwyno thesis i'r Cwmni tuag at ei radd Meistr. Mae wedi ymgartrefu yn Milnthorpe Cumbria ac mae ei bartner Cerys, hithau hefyd wedi cael swydd yn yr un man ag ef. Rhwydd hynt i'r ddau ohonoch, a phob dymuniad da. Edrychwn ymlaen Ieuan, i glywed tipyn o hanes Cumbria, pan ddoi adre i Rhiwarthen.

**Gradd Meistr**

Llongyfarchiadau cynnes i Amy Dryburgh, Maes Melindwr, ar ennill Gradd Meistr yng Ngholeg Lerpwl. Bu yn ffodus iawn o gael swydd yn swyddfa MIND yn Aberystwyth tan y flwyddyn nesaf. Da iawn ti Amy a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Croeso i'r ardal**

Croeso arbennig i Kirsty, Dan a Leira i Ddolheulog. Symudodd y teulu bach o Aber-ffrwd rai wythnosau yn ôl. Mae Leira yn mynychu Ysgol Feithrin Pen-llwyn ac wrth ei bodd ymysg ei ffrindiau yno. Dymuniadau gorau, hyderaf y byddwch yn hapus iawn yma ym Mhen-llwyn.

Hefyd Evan Evans sydd wedi dod atom o Dregaron i fyw yn "Tomos". Amaethwr oedd Evan wrth ei alwedigaeth, ac mae symud i ardal wledig fel yma yn barhad o'r cyfarwydd, hyderwn y byddwch yn hapus iawn yn ein plith, a chymdogion hyfryd gennych yn John a Marie. Croeso cynnes iawn.

**Gadael Ardal**

Dymunwn yn dda i Richard Howells a'r teulu a oedd yn byw yn "Tomos" wrth iddo symud i fyw yn Aberystwyth. Cafodd Richard ei eni a'i fagu ym Mhen-llwyn a mynychu'r ysgol leol cyn mynd ymlaen i Ben-glais. Byddwn yn gweld eich eisiau fel trydanwr, gan i ni bwyso arnoch yn aml am gymorth yn y gorffennol. Diolch nad yw Aberystwyth ond pum milltir i ffwrdd, a'r ffôn symudol yn gaffaeliad mawr.

**Newid Ysgol**

Dymuniadau gorau i bob un sy'n newid ysgol mis Medi, gobeithio y byddwch yn hapus iawn ym Mhenweddig; braf fydd clywed eich hynt a'ch helynt o dro i dro.

**Yn yr Ysbyty**

Dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs. Nan Howells, Glyndwylan sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd a hefyd Mr. Gwyn Edwards, Hyfrydle sydd yn Ysbyty Tregaron. Gobeithio y byddwch adref yn fuan iawn ac yn cryfhau o ddydd i ddydd.

**Cyfarchion Hwyr**

Pen blwydd hapus hwyr i'r ail aelod hynaf o Gapel Pen-llwyn, sef Mrs. Maggie Jones, Haulfryn gynt, ag sydd yng Nghartref Abermad ar hyn o bryd. Mae hi yn ogystal a Mrs. Anne Davies, Maencrannog yr un oed ac yn cael eu pen blwyddi o fewn 2 fis i'w gilydd. Pob dymuniad da i'r ddwy ohonoch, cawn ymweld â chi yn fuan iawn gobeithio wrth i rwymedigaeth covid leihau. Cofion a phob bendith atoch eich dwy.

**Ennill gwobr**

Llongyfarchiadau i Elizabeth Collison, Cangen Melindwr, am ennill y 3edd wobr yn y Sioe Frenhinol (Rithiol) eleni am dynnu llun o dan y teitl 'Natur'.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Heulwen Lewis a'r teulu, Deiniol, ar farwolaeth ei chyfnither – Manon Easter Lewis, Corwen.

# Madog Dewi / Cefn-llwyd

**Byd Addysg**
Llongyfarchiadau i Huw Meredydd, Maes Awel, am ennill cymhwyster ASDAN yn Ysgol Penweddig eleni. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r gwaith dros y cyfnod clo! Pob lwc iddo ar gychwyn yng Ngholeg Ceredigion y mis yma!

**Mynd yn athrawes**
Llongyfarchiadau i Lisa Evans, Fronfraith, ar gwblhau cwrs ymarfer dysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth a dymuniadau gorau ar y swydd yn Ysgol Aberaeron.

**Dewis i dim Bahrain Racing**
Dymuniadau gorau i Stevie Williams sydd wedi ei ddewis i dim seiclo Bahrain Racing i'r Vuela Burgos.

**Ffermio**
Dymunwn yn dda i Tristan Davies, Llaingwyddil, Cefnllwyd, sydd wedi symud i ffermio i Sarn, ger y Drenewydd.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Defi John Morris, Y Fronfraith, ac Evelyn Morgan, Cefnfaenor ar golli cyfnither – Mrs Margaret Richards o Lan-non.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dylan a Llinos, Dôl Lwyfen,Cefn-llwyd, ar enedigaeth mab bach – Wil – brawd bach i Leusa Wyn a Math.



**Priodas**
Llongyfarchiadau i Rhys Evans, Fronfraith, a Ceri Haf Roberts, Llanuwchllyn a briodwyd ar Orffennaf 10fed; pob lwc i'r dyfodol.


Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

Uchafbwyntiau'r mis ar
**BroAber360.cymru**

**GAIR GAN YR YSGOGYDD**



Helo bawb! Mae llwyth o stwff grêt wedi bod ar BroAber360 dros y mis diwethaf, gan gynnwys y straeon isod. Cofiwch gadw lygad ar sianelau cyfryngau cymdeithasol BroAber360 i gadw fyny hefo'r diweddaraf.

**SIOE TALYBONT AR Y WE UNWAITH ETO!**

Unwaith eto, a gobeithio am y tro olaf, roedd rhaid cynnal digwyddiadau ar-lein eleni - a gallwch weld canlyniadau Sioe Rithiol Tal-y-bont drwy ddilyn y linc yn y darn. Gallwch hefyd weld clipiau o'r Sioe yn 1995!





**PENRHYN YN CIPIO'R PENAWDAU**

Hefo pêl-droed nôl o flaen torfeydd, Y Seintiau Newydd oedd yr ymwelwyr i Gae Baker rhai wythnosau nôl yng Nghwpan Nathaniel MG - a llongyfarchiadau enfawr i Benrhyn am y fuddugoliaeth dros un o glybiau mwyaf llwyddiannus ac adnabyddus Cymru.



**AIL LYFR GAN AWDUR O BOW STREET**

Yn dilyn llwyddiant Genod Gwych a Merched Medrus, a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2020 mae Medi Jones-Jackson, sy'n byw yn Bow Street, wedi cyhoeddi ail lyfr yn y gyfres sydd yn cofnodi hanes 12 merch ysbrydoledig arall o Gymru.




Ffili aros tan y papur nesa'?
– BroAber360.cymru

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**



Aelodau SYM Capel Bangor yn mwynhau yr haul a cherdded y wal yn y Borth. Methodd ein Llywydd Barbara Hogger ddod gyda ni ond fe ymunodd a ni yn hwyrach yng Nghrefftau Pennau lle yr oedd croeso cynnes yn ein disgwyl gyda te ac ambell i gacen!

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

# Treialon Cŵn Defaid Trefeurig

Cynhaliwyd y treialon ar Orffennaf 24 ar Fanc- y-darren, Y beirniad oedd Edgar Price, Trecastell. Cafwyd diwrnod sych, arbennig at y gwaith

Dyma'r canlyniadau ac enwau y cŵn:

**Dull Cenedlaethol Agored**

1 Dylan Davies, Bryncrug – Mot 8
2 I B Jones, Waunfawr – Tim 10
3 John Bowen, Capel Bangor – Tess 12½
4 Aled Owen, Corwen – Bert 16
5 Jeff Evans, Swyddffynnon – Ric 18
6 I B Jones, Waunfawr – Tel 19

**Dull Cenedlaethol Nofis**

1 I B Jones, Waunfawr – Tel 19
2 Owain Lewis, Cwmystwyth – Bruce 30
3 Bert Evans, Bronnant – Glen 32½

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol nos Iau Mai 13eg trwy gyfrwng Zoom. Roedd y cynghorwyr i gyd yn bresennol a hefyd cyfieithydd. Cafwyd adroddiad gan y cadeirydd, Richard Edwards, a'r Cynghorydd Sir Rhodri Davies.

Nododd y cadeirydd bod Cyngor Melindwr wedi dosbarthu £1,850 i fudiadau lleol ac elusennau yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/2021. Mae'r gorchhudd bws ger Tyllwyd wedi cael ei adnewid ac mae gwaith mewn llaw i roi gorchudd bws newydd ger Stad Pen-llwyn.

Cyfeiriodd y ddau at y ffaith bod cyfyngiadau Covid wedi creu anawsterau a diolchwyd i'r cynghorwyr am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac am eu parodrwydd i ymwneud â'r dechnoleg i fedru cynnal cyfarfodydd o bell.

Etholwyd swyddogion ar gyfer y flwyddyn 2021/2022.

Cadeirydd - Jim Palmer.

Is-gadeirydd- Jean Watson.

Clerc – Lynne B Davies.

Ar ddiwedd y cyfarfod diolchwyd i'r Cadeirydd, Cynghorydd Sir a'r Clerc am eu gwaith yn ystod blwyddyn sydd wedi bod yn drafferthus oherwydd yr holl gyfyngiadau. Diolchwyd i'r cyfiethydd am ei gwasanaeth.

Yn dilyn cafwyd y cyfarfod misol efo'r Cadeirydd newydd y Cynghorydd Jim Palmer yn y gadair.

Roedd un cais cynllunio wedi dod i sylw'r Cyngor sef A210369; nid oedd gwrthwynebiad i'r cais.

Cafwyd adroddiad o'r sefyllfa ariannol gan y clerc a dywedodd bod cyfrifon 2020/2021 wedi cael eu gwirio, yn ôl yr arfer, gan y Cynghorydd Amber Humphreys. Diolchwyd iddi am y gwaith. Maent yn barod am archwiliad mewnol.

Pont Rhiwarthen.

Roedd y Cyngor wedi derbyn ebost oddi wrth Cyngor Ceredigion yn nodi rhagweld adolygiad o'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/2022. Mae Cyngor Melindwr yn golygu cysylltu efo ein Aelod o Senedd Cymru, yr Aelod Seneddol a Chyngor Ceredigion ynglyn â'u pryderon am y bont ac maent yn annog y busnesau a thrigolion lleol i wneud hynny hefyd.

Bydd y cyfarfod nesaf, trwy gyfrwng Zoom, ar Mehefin 17eg am 7.30yh.

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992




GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru


ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Trec Rheidol**
Dydd Sadwrn cyntaf ym mis Awst, diwrnod Sioe Capel Bangor mewn blwyddyn arferol. I ddathlu y diwrnod penderfynodd y pwyllgor drefnu trec ceffylau wedi ei threfnu gan Carwyn a Nerys Daniel a'r teulu. Llywydd y dydd oedd Carwyn a'i benderfyniad ef oedd codi arian i Adran Ddamweiniau Ysbyty Bron-glais i ddiolch iddynt am y gofal arbennig y derbyniodd yno dros y misoedd diwethaf. Daeth bron i hanner cant o geffylau ynghyd a mi arweiniodd Nerys y daith o Gwmrheidol i fyny i Ystumtuen ac yn ôl eto i Llety'r Bedol ac er gwaethaf y tywydd roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Cafwyd prynhawn o gymdeithasu dros bryd o fwyd a diolch o galon i bawb wnaeth gyfrannu mewn unrhyw ffordd, stiwardio, rhodd o fwyd, rhoddion ariannol a chynorthwyo ar y dydd. Llwyddwyd i godi bron i dair mil o bunnoedd ac mae pwyllgor y sioe a ninnau fel teulu yn llawenhau yn fawr iawn yn llwyddiant y diwrnod yn ariannol ac yn gymdeithasol ar yr adeg ryfedd yma. Diolch o galon.

**Arwerthiannau**
Llongyfarchiadau i deulu Toedrhiwceir ar eu llwyddiant gyda'u ceffylau gwedd. Sicrhaodd ebolion gwedd y prisiau uchaf yn arwerthiant ceffylau Llanybydder y ddau fis diwethaf. Hyfryd gweld y marchnadoedd yma yn dod yn ôl a phob hwyl i'r dyfodol.

**Oriel y Cyfnod Clo**
Llongyfarchiadau i Alice a Louise, Troedrhiwsebon, ar eu llwyddiant yn noson dathlu Oriel y Cyfnod Clo yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ddiweddar am eu gwaith artistig. Enillodd Louise wobr Calon y Clo ac mi gafodd Alice wobr dewis y bobl. Pob hwyl gyda y gwaith yma yn y dyfodol.

**Dechrau Ysgol**
Dechrau y tymor yma mi fydd Twm Ellis, Dolhaidd, yn dechrau yn Ysgol Pen-llwyn, rwyf yn siwr y byddi yn hapus iawn yno.



**Carwyn gyda Hewid Hooch y ceffyl (a Nerys a Gareth) a wnaeth baratoi y llwybr ar gyfer trec Rheidol.**



**Merched lleol wedi cyrraedd yn ol yn ddiogel.**

## Cyngor Cymuned GENEU'R GLYN


**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor: cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com**

**Dyddiad y Cyfarfod**: 28.06.2021 yn rhithriol, 'roedd 1 aelod yn absennol.

**Trafodwyd**:

- Cydymdeimlwyd gyda Carwen Hughes Jones a'i theulu ar ei cholled;
- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Nodwyd gohebiaeth oddi wrth Deryck Evans, Awdit Cymru ynglŷn â awdit 2021. Danfonwyd Ffurflen Blynyddol am 2020/21 i Awdit Cymru.
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Derbyniwyd adroddiad yr Awdit Offer Chwarae gan Rospa. Yr Is-Bwyllgor i gwrdd i drafod yr Awdit a datblygiadau'r Parc yn y dyfodol.
- **Adroddiad gan y Cyng Ray Quant**: Derbyniwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol ledled Ceredigion;
- **Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**: Datblygiadau'r Parc yn y Dyfodol, gosod bin ysbwriel ar Lôn Glanffraed, Clawdd ar Lôn Glanffraed, Polyn Baner yn Llandre.
- **Cais Cynllunio** A210509, Tropical Forest Products Ltd, Lôn Glanffraed – Dim gwrthwynebiad.
- **Cais Cynllunio** A210484, Yr Hen Ysgol Llandre – Dim gwrthwynebiad ond cais bod yr adeilad iconic yn cadw enw Cymraeg.
- **Dolybont:** Trafodwyd cyflwr y bont a torri gwair, Y Cyng Ray Quant I wneud ymholiadau.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 26 Gorffennaf 2021.






# Llandre

**Croeso**

Croeso i Landre i Rhys ac Anwen Jones a'r plant - Anni, Betsan ac Owen sydd wedi symud dros yr haf o Lwyn Afallon, Aberystwyth i Abel-Gur, Lôn Glanfred ac i Elena Gruffudd sydd wedi symud i Bantydderwen.

**Pen blwyddi piodas**

Llongyfarchiadau i Wynne Melville a Linda Jones, Y Berllan, ar ddathlu 50 mlynedd o briodas ar 14 Awst.

Ac i Martin a Gillian Robson Riley, Llys Hywel, ar ddathlu 25 mlynedd o briodas ar 31 Awst.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Ainhoa, Glanceiro gynt a'i gŵr Aleksa Sopalovic, ar enedigaeth eu mab, Nikola Idris, yn Sheffield. Gor-nai i Llinos a Cynog Dafis.

Ganwyd merch fach i Ian a Kate, Tregerddan a'i henw yw Celyn. Llongyfarchiadau i Elina Davies, Bronaallt ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto.

**Pen blwyddi arbennig**

Llonygyfarchiadau i Llinos Dafis a Nans Morgan ar ddathlu eu pen blwydd yn 80 oed yn ddiweddar

**Ennill ym myd y ddawns**

Llongyfarchiadau i Miriam Llwyd sydd wedi cael ei henwi yn un o enillwyr sialens One Dance UK 2021 – bu'n cystadlu'n erbyn dawnswyr o bob rhan o'r DU gyda'i dawns wedi'i ysbrydoli gan dirwedd a golygfeydd Aberystwyth.

**Diolch**

Dymuna Marianne Jones Powell ddiolch yn fawr i bawb a fu mewn cysylltiad â hi tra yn Ysbyty Bron-glais ac wedi hynny.

**Pen blwydd arbennig**

Pen blwydd hapus i Gerwyn Powell, Leacroft, fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 70 ar 21 Medi.

**Ennill gwobr**

Llongyfarchiadau i Winifred Davies o gangen Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn am ennill y 3edd wobr yng nghystadleuaeth 'Gwobr Patagonia' yng Ngŵyl Haf Merched y Wawr.



**Ennill**

Lleucu Roberts – enillydd y dwbl dwbl cyntaf ym maes rhyddiaith

Lleucu Roberts yn ennill y dwbl dwbl! Yn dilyn ei champ yn 2014, mae hi wedi ennill y Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith eto eleni! Yr unig berson erioed i lwyddo gyda'r fath gamp. Llongyfarchiadau enfawr eto, Lleucu

**Yn yr ysbyty**

Dymunwn wellhad buan i Iris Towers Evans ar ôl ymweliad diweddar â'r Ysbyty.

**Priodas**

Dymuniadau gorau i Steffan ac Aisha Nutting briodwyd yn y Llyfrgell Genedlaethol ar Orffennaf 24. Maent wedi ymagtrefu yn Llys Newydd, Tainewyddion.

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad

Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain

djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

GWE Cambrian WEB

**Gwefannau Gwych o Gymru**

Creu Gwefannau

Marchnata Digidol

Pecynnau Gofal Gwefan

a llawer mwy!

*Gwasanaeth Gymraeg*

**Cysylltwch Heddiw**

info@cambrianweb.com

**01970 623 906**

*Trefnwyr Angladdau*

***C T Evans***

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*


**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8

whhowells@gmail.com



# Goginan

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda dau deulu o'r ardal sydd wedi colli brodyr yng nghyfraith ddiwedd Gorffennaf. Morfudd Ingram, Llygad y Glyn a'r teulu ar farwolaeth D Lewis, Cefnbarhedyn ger Machynlleth ac Aled Bebb a'r teulu, Penpistyll ar farwolaeth Dafydd Prydderch Williams o'r Alban. Cydymdeimlwn gyda'r ddau deulu

**Llongyfarchiadau**
Fe ddaeth Ceirios Bebb yn drydydd mewn cystadleuaeth Ffotograffiaeth 2021 yn Cymdeithas Steddfodau ar y we dan 18 oed. Mae Ceirios yn wyres i Aled a Bethan Bebb, Penpistyll

**Cystadlu**
Ar 26 o Orffennaf fe aeth Caryl Thomas, Bryn Bugail a'i cheffyl Cwmpandy Carlo i gystadlu yn Rhydaman mewn cystadleuaeth ardal "Dressage Prydeinig". Mi fu yn fuddugol yn ei ddosbarth ac o'r herwydd gyda chymhwyster i ymgeisio yn y rowndiau terfynol, a fydd yn cael eu cynnal yn Lincoln yn yr Hydref. Mae Cwmpandy Carlo ond yn ddeuddeg oed ac wedi ei fagu gan Caryl felly mae yna fwy o falchder. Pob lwc i'r ddau yn y gystadleuaeth nesaf.


Caryl a Cwmpandy Carlo yn cystadlu

# Dwy Nofel

Cyflawnodd Lleucu Roberts gamp fawr drwy ennill Gwobr Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr yn 2014; camp fwy fyth oedd ailadrodd y dwbwl hwnnw yn Eisteddfod AmGen 2021 gyda gweithiau a fyddai fel arall wedi ennill yn Eisteddfod ohiriedig Tregaron yn 2020. A hithau'n awdur a'i gwreiddiau ym mro'r Tincer mae'n briodol iawn ein bod yn ymfalchïo yn ei llwyddiant.

Nofel wedi ei lleoli yn 'dre'—sef Caernarfon—yw Hannah-Jane, gwaith buddugol Gwobr Daniel Owen: yn wir, bron na ellir dweud bod 'dre'—a ddarlunnir yn ymatalgar o gynnil heb ddefnyddio ei phriod enw—yn 'is-gymeriad' yn y nofel. (Mae pwnc ysgrif neu draethawd ar le Caernarfon—ein tref Gymreiciaf—yn ein llenyddiaeth gyfoes.) Ond cymeriad canol y llwyfan yw'r hen wraig Hannah-Jane, cyn-athrawes a ddaeth yn fam sengl i Susan/Suzie, heb i Hannah-Jane erioed ddatgelu pwy oedd ei thad. Yn y nofel y mae Hannah-Jane yng nghrafangau dementia, ond er ei ffwndro—a gyfleir yn gelfydd odiaeth—nid darlun sentimental a meddal yw'r darlun ohoni. Yn ei dryswch a'i gwendid, personoliaeth ystyfnig ac onglog yw Hannah-Jane, gwedd a amlygir yn amwysedd ei hymwneud â Suzie ac yn ei hagwedd at ei chymdoges Beth nad yw ei hymyrraeth garedig â bywyd yr hen wraig yn cael ei dderbyn yn arbennig o raslon. Ymddieithrio oddi wrth ei mam a wnaeth Suzie, a briododd academydd o dras Siapaneaidd yng Nghaergrawnt a dod yn fam i ferch, Ishi Mai, a mab, Gethin. Mae Ishi Mai, artist cysyniadol dawnus, yn gymeriad pwysig yn y nofel, yn un sy'n ymbalfalu i ddeall cefndir a phersonoliaeth ei nain, gan droi Hannah-Jane yn wrthrych arddangosfa gelf avant-garde yn Llundain. Fe sylwir mai merched yw prif gymeriadau'r nofel: byd merched a'u teimladau a'u rhwystredigaethau a'u seicoleg yw priod dirlun dychmyg Lleucu Roberts. Fel yn Saith Oes Efa, cyfrol Medal Ryddiaith Eisteddfod Sir Gâr yn 2014, mae'n archwilio'r tirlun hwn yn Hannah-Jane gyda medr a sensitifrwydd anghyffredin.

Nofel sy'n adlewyrchu amgylchiadau 2019 yw Hannah-Jane (bydd blas gwahanol ar ffuglen Oes y Covid!): yn gefnlen i hynt y cymeriadau mae helyntion ôl-Brexit, yr hogi ar hiliaeth a fu yn sgil hynny, problem digartrefedd, ac ethol y bondigrybwyll Boris. O ran rhediad naratif y nofel gellir datgelu yr adferir y berthynas rhwng Hannah-Jane a Suzie, a chawn wybod cyfrinach yr hen wraig. Efallai y gellid cwyno mai ffigur ystrydebol braidd yw 'dihiryn' y nofel, ond cwyn fechan yw honno. Dyma nofel ragorol sy'n dal diddordeb i'r diwedd ac sy'n olrhain yn dreiddgar blygion cymeriadau pobl a chymhlethdodau eu perthynas â'i gilydd.

Aros yn ei thirlun cyfarwydd a wna Lleucu yn Y Stori Orau, cyfrol y Fedal Ryddiaith. Mae'r chwyddwydr unwaith eto ar berthynas mam (nas enwir) a'i merch, Swyn: motiff sy'n gyffredin rhwng y nofel a Hannah-Jane yw merch nad yw'n hysbys pwy yw ei thad (er nad yw hynny'n ganolog i strwythur Y Stori Orau). Mae fframwaith y stori yn syml: aiff y fam a'i merch ar daith drwy orllewin Cymru mewn hen gamper-van VW, gan ymweld â mannau megis cofeb Waldo ym Mynachlog-ddu, Ystrad Fflur, Llyn Celyn ac Aberdaron. Mae thema hunaniaeth yn llinyn o fath drwy'r nofel, yr hunaniaeth Gymreig i raddau ond yn bwysicach hunaniaethau cymhleth Swyn a'i mam. Ond hynodrwydd y nofel yw ei hadeiladwaith, y modd y nyddir storïau i mewn i'r naratif—storïau o fewn y stori megis—sef storïau a edrydd ei mam wrth Swyn yn ystod y daith. Dyma adlewyrchu gwedd oesol ar ymwneud mamau â'u plant, y fam fel adroddwr storïau. Gellid trafod natur y storïau hyn—sy'n ychwanegu haen gyfoethog at wead y nofel—am yn hir. Beth yn union yw eu swyddogaeth? I ba raddau y maent yn alegorïau neu'n foeswersi sy'n uniongyrchol berthnasol i Swyn a'i sefyllfa, sy'n berthnasol i'n hynt ni'r darllenwyr hefyd? Sut bynnag, maent yn ymdoddi'n esmwyth i lif naratif sy'n ymddangosiadol realaidd.

Ond rhyw ugain tudalen o'r diwedd caiff y darllenydd ysgytwad o sylweddoli i'r nofelydd ei dwyllo yn gyfrwys a chelfydd. Oherwydd fe ddaw'n amlwg nad nofel gwbl realaidd sydd gennym yma mewn gwirionedd. Fe syfrdanwyd y darllenydd hwn gyda'r tro yn y stori i'r fath raddau fel imi gael fy nghymell i wneud rhywbeth nad wyf bron byth yn ei wneud wrth ddarllen nofel, sef ei hailddarllen ar f'union. A fûm yn ddarllenydd arbennig o ddi-weld a hygoelus? Efallai! A oedd rhyw awgrym yng nghwrs y nofel o'i gwir natur ac o'r datgeliad a oedd i ddod ar ei diwedd, rhyw gliw y methais ei weld ar y darlleniad cyntaf? Efallai fod rhyw awgrym ar dudalen X (gwell peidio â datgelu'r union fan!), ond awgrym enbyd o gynnil ac amwys ydyw. Bydd llawer yn mwynhau y nofel ymddangosiadol o syml ond amlhaenog hon, yn mwynhau, yn wir, twyll celfydd yr awdur. Ai dyma uchafbwynt gyrfa lenyddol Lleucu Roberts hyd yma, ei gwir stori orau?

**Gruffydd Aled Williams**

# Yr Arglwydd Elystan Morgan

Ym marwolaeth yr Arglwydd Elystan Morgan ar 7 Gorffennaf yn 88 oed, ar ôl cystudd hir, collodd Cymru ŵr mawr.

Elystan oedd arwr gwleidyddol fy llencyndod: cofiaf yn dda berfformiad tanbaid ac angerddol ganddo mewn dadl deledu pan safai fel ymgeisydd Plaid Cymru yn 1959 yn etholaeth gyfagos Wrecsam. Fe'm hysbrydolwyd ganddo i sefyll fel ymgeisydd y Blaid mewn ffug etholiad yn Ysgol Ramadeg (dra seisnigedig) Llangollen – ac, er syndod imi, ennill! Bûm wedyn yn ymgyrchu drosto pan safodd ym Meirionnydd yn 1964. Mewn dyddiau pan oedd cyfarfodydd gwleidyddol yn dal yn eu bri, fe'i cofiaf fel areithiwr heb ei ail, a gyflwynai ei ddadleuon a'i argyhoeddiadau mewn iaith goeth, a'i lif a'i gyfaredd yr un boed yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ond i raddau helaeth ffigur a edmygwn o hirbell oedd y gwleidydd ifanc dawnus; fe adwaenwn Alwen – a ddaeth yn briod iddo – o ardal gyfagos Carrog yn well. Ddegawdau yn ddiweddarach – ar ôl symud i dreflan y Dole ar gyrion Bow Street a dod yn gymydog agos iddo, yn gyd-aelod yng Nghapel y Garn ac am ychydig flynyddoedd ar derfyn ei oes yn gyd-flaenor ag ef – y deuthum i wir adnabod Elystan. Ar aelwyd Carregafon wrth fwynhau ei groeso a 'rhoi'r byd yn ei le' (chwedl yntau) weithiau fe drafodem droeon ei yrfa wleidyddol; mentrais gyfaddef wrtho imi nid yn unig ganfasio o'i blaid ym Meirion ond hefyd yn ei erbyn pan safodd dros Lafur ym Môn yn 1979. Y mae gwleidyddiaeth yn bwysig, ond y mae hefyd, wrth gwrs, bethau anrhaethol bwysicach.

Soniais am gynhysgaeth ieithyddol Elystan. Mewn cylchoedd lle'r oedd gafael ar iaith yn anhepgor—gwleidyddiaeth a'r gyfraith a'r farnwriaeth—y bu'n gweithredu'n broffesiynol, a Saesneg oedd prif iaith y cylchoedd hynny. Ond mewn teyrnged iddo fe soniodd y gohebydd gwleidyddol Vaughan Roderick yn dra phriodol am loywder ei Gymraeg ('Cymraeg perffaith'). Fe'i magwyd ar aelwyd hynod lengar, a'i dad, Dewi Morgan, yn Fardd Cenedlaethol ac yn gyfaill i feirdd megis T. Gwynn Jones a Gwenallt. Ar ben magwraeth felly meithrinwyd doniau ieithyddol Elystan hefyd gan ei fagwraeth grefyddol. Yn amlder goludog ei eirfa a chadernid ei gystrawen, Cymraeg William Morgan a'i Feibl oedd grwndwal Cymraeg Elystan. Fe'i breintiwyd â chof rhyfeddol: gallai hau dyfyniadau'n ddiymdrech ac i bwrpas yn well na neb a adnabûm erioed. Yr oedd tair prif ffynhonnell i'w gronfa helaeth o ddyfyniadau: y Beibl, y llyfr emynau, a gweithiau beirdd gorau Cymru o'r cywyddwyr ymlaen.

Yr oedd Elystan yn ymneilltuwr o hil gerdd. Ei hen-hen-dadcu, John Watkins, Brysgaga, a roes y tir i adeiladu Capel y Garn arno yn 1833. Yr oedd ei hen-dadcu, y Parch. Enoch Watkin James (1818–94) yn weinidog ar eglwysi'r Borth a Dôl-y-bont a etholwyd yn Llywydd Cymdeithasfa'r De, gŵr chwedlonol o amryddawn: gweinidog, ffermwr, cynghorydd sir, ynad heddwch, pysgotwr, beirniad ceffylau, saethwr, englynwr, a hefyd meddyg esgyrn o fri! Ar ochr ei dad perthynai Elystan i olyniaeth o flaenoriaid yn y Garn a ymestynnai'n ddi-dor dros bedair neu bum cenhedlaeth. Pan fu farw yr oedd Elystan wedi bod yn flaenor yn y Garn am hanner can mlynedd: fe'i hetholwyd yn Ionawr 1971 ac fe wasanaethodd dan bum gweinidog gwahanol. Bu'n eithriadol o ffyddlon i'r achos, fel ei briod hoff, Alwen, pan oedd hithau'n fyw: yn ystod ei gyfnod fel barnwr – galwedigaeth a olygai gryn deithio heb sôn am faich a chyfrifoldeb ei ddyletswyddau – sonnir ei fod yn dychwelyd bob penwythnos i gymryd ei le yn ei gornel yn y Sêt Fawr bob Sul. Llefarai bob amser gyda graen ac awdurdod, boed yn cyhoeddi fel Blaenor y Mis neu pan gâi gyfle i ledu ei adenydd yn ddeallusol ac yn ddiwinyddol, megis mewn cyfarfodydd sefydlu gweinidogion neu gyfarfodydd ymadael: ef, yn rhinwedd ei allu a'i urddas a'i huodledd digymar oedd y dewis naturiol ac anorfod i lefaru ar ran yr eglwys. Dim ond yn ystod ei flynyddoedd olaf y cefais y profiad o'i gwmni yng nghyfarfodydd blaenoriaid y Garn. Buan y gwelais barch enfawr fy nghyd-flaenoriaid, mwy profiadol na mi, i'w gyngor, ei graffter, a'i ddoethineb mawr. Yr oedd achos y Garn yn hollbwysig iddo: ys dywedodd yn ei hunangofiant *Elystan*: *Atgofion Oes* (2012) 'Bu Eglwys y Garn yn aelwyd gynnes imi er pan oeddwn yn blentyn'. Teimlai aelodau'r Garn hwythau gynhesrwydd mawr ato yntau: bydd hiraeth a bwlch rhwth ar ei ôl.

Heb os, yr oedd Elystan – pleidiwr dyfal, taer a galluog dros Gymru fel endid gwleidyddol – yn genedlgarwr mawr. Ac, wrth gwrs, fe arddelai sosialaeth. Ond sosialydd o fath arbennig ydoedd. Nid yn athroniaeth Karl Marx y gwreiddiwyd ei sosialaeth, ond yn radicaliaeth ei fagwraeth ymneilltuol a'r gwerthoedd gwâr a fynegwyd yn y Bregeth ar y Mynydd ac efengyl Crist. Dyna brif darddle ei ddynoliaeth fawr a theimladwy. Cofiwn amdano: cenedlgarwr, sosialydd, Cristion, a bonheddwr mwyn a hynaws y bu'n fraint ei adnabod. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei blant Owain ac Eleri a'u teuluoedd – a fu mor wiw eu gofal amdano – yn eu colled a'u profedigaeth.


Gruffydd Aled Williams
Teyrnged a luniwyd i *Cenn@d* – gyda diolch i *Cenn@d* am gael ei hatgynhyrchu yma.

## Dolau

**Elystan**
Trist yw cofnodi colled enbyd i'r ardal i gyd ar ôl marwolaeth yr Arglwydd Elystan Morgan yn ddiweddar.

Yn y chwerwedd, heb chwerwi - yn adladd
y bleidlais, heb dorri,
bu'n ŵr un genadwri:
Cymru, a'i hyfory hi.

**Sion Aled**




Llun: Prifysgol Aberystwyth

**Diolch**
Dymuna Eleri, Owain a'r Teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangodwyd iddynt yn eu profedigaeth.

**Pen blwydd arbennig**
Gobeithio i Margaret Mason, Bryngwyn Mawr, fwynhau ei phen blwydd yn 80 ar Fedi 7.

# Ysgol **Rhydypennau**

**Dal lan â'r digwyddiadau**
Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 y llynedd wrth iddynt drosglwyddo i'w hysgolion uwchradd i gychwyn pennod newydd gyffrous ym Mlwyddyn 7.

Ar ddiwedd tymor diwethaf, cafodd y criw gyfle i ffarwelio gyda'u ffrindiau i gyd a threulio amser gwerthfawr yng nghwmni ei gilydd am y tro olaf yn ysgol Rhydypennau. Derbyniodd pob plentyn anrheg a thystysgrif arbennig fel atgof o'u hamser yn yr ysgol. Dymuniadau gorau iddynt oll.

**'Wythnos Hwyl'**
Yn ystod dyddiau olaf tymor yr haf, cynhaliwyd 'Wythnos Hwyl' yn yr ysgol. Yn ystod yr wythnos hon fe gafodd pob dosbarth gyfle i fwynhau amryw o weithgareddau difyr ymysg ei gilydd. O gystadleuaeth taflu welis i adrodd clymau tafod; ac o gymryd rhan yn ein Mabolgampau blynyddol i ddod i'r ysgol mewn gwisg un o enwogion Cymru!
Braf oedd gweld y plant yn mwynhau a phrofi ychydig o ryddid oddi wrth warchae caeth cyfyngiadau Covid.

**Mabolgampau**
Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 7fed o Orffennaf. Y tîm buddugol oedd y tîm glas, Ystwyth; ail oedd y tîm coch, Eleri; a Rheidol, y tîm melyn oedd yn drydydd. Llongyfarchiadau i'r holl fechgyn a merched canlynol a lwyddodd i ennill y pwyntiau uchaf yn eu dosbarth; Huw Jones a Hanna Jones. (blwyddyn 6); Gari Raggett a Lili Myrddin (blwyddyn 5); Ted Elias Jones a Teagan James (blwyddyn 4); William Hinks a Yasmin Evans (blwyddyn 3); Iwan Powell a Ruby Crane (Blwyddyn 2); Beau Austin-Davies a Nel Rennie (Blwyddyn 1); Leonardo Corbisiero a Cadi Mitchell (Dosbarth Derbyn); Steffan Gwillim a Macy Fullard-Phillips (Meithrin)



Diolch i bawb am ymdrechu mor wych yn ystod y dydd.

**Criced**
Diolch yn fawr i Chris Strange am ddarparu sesiynau criced i blant blynyddoedd 3 i 6 ar y 12fed o Orffennaf. Gobeithio medrwn fanteisio ar ei wasanaeth eto haf nesaf.

**Ffarwelio a Chroesawu**
Yn anffodus bu'n rhaid ffarwelio â dwy aelod gwerthfawr o'n staff ar ddiwedd tymor yr haf. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Miss Catrin Griffiths a fu'n gymorth mawr dros y flwyddyn yn y Cyfnod Sylfaen; a Mrs Liz Mears a fu'n lanhawraig am ddeunaw mlynedd yn yr ysgol. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonynt. Croeso mawr i Eiry Evans, Zoe Jones, Angharad Rennie a Ruth Taylor sydd wedi ymuno â staff yr ysgol yn ddiweddar.






**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
**Perchennog: Lawrence Kelly**
**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**
**Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**
**01970 828312**





Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: **http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**
@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.

# Ysgol Pen-llwyn

**Cyfnod Sylfaen**
Gorfennwyd y tymor yn dysgu am y traeth a gwersylla. Gwnaeth y plant ymchwil ar-lein i ddewis lle addas, prisio a phacio. Gwnaeth y plant fwynhau gweithgareddau hwyliog fel tostio malws melys, codi pebyll ac adeiladu cuddfannau. Cafwyd llawer o hwyl!

**Gwobr Bookslam**
Roedd y plant yn ran o gyfarfod rhithiol gyda Lucy Owen. Cafwyd trafodaeth ar ei nofel *Flower Girl* (Atebol), dysgodd y plant rap ar y cyd gyda Lucy a hefyd cawsant gyfle i gyfarfod â'i chi hi, Buddy. Buddy oedd un o'i phrif ysbrydoliaethau wrth ysgrifennu ei nofel ardderchog.

**Her Ambiwlans Awyr**
Llongyfarchiadau i'r plant a gymerodd ran yn yr Her Hanner Tymor, sef sialens i gerdded o leiaf 16 milltir. Dyma'r disgyblion gyda'u tystysgrifau.

**Creu Crysau T**
Buodd disgyblion CA2 yn brysur yn printio crysau T wrth brintio sgrîn fel rhan o'u gwaith ar y thema "Beicio".

**Cyngor Eco**
Cafwyd llwyddiant mawr wrth i'r Cyngor Eco ennill y Wobr Platinwm. Mae hyn yn dyst o ymrwymiad yr Ysgol at faterion ecologol ac amgylcheddol. Mae hyn yn addas iawn wrth feddwl am arweinwyr y byd yn dod ynghyd i drafod sefyllfa Newid Hinsawdd byd-eang yn Glasgow ddiwedd y mis. Mwynhawyd picnic di-blastig i ddathlu. Diolch o galon i'r plant am eu gwaith caled ac ymroddiad ac yn enwedig i Mrs Bethan Evans am gefnogi a chynorthwyo y plant mor ofalus a brwdfrydig. Bydd y byd yn lle gwell diolch i blant Ysgol Pen-llwyn!

**Plant Newydd**
Croeso cynnes i'r plant newydd i deulu Ysgol Pen-llwyn. Rydym yn edrych ymlaen at gael Twm, Iori a Charlie yn rhan o fwrlwm yr Ysgol.

**Pob lwc Blwyddyn 6**
Pob lwc i'r plant sydd yn symud ymlaen i her newydd cyffrous wrth iddynt symud ymlaen i Ysgol Penweddig. Diolch yn fawr am bopeth. Byddwch chi yn golled mawr i'r Ysgol, ferched ac mae Penweddig yn lwcus o'ch cael chi.

**Ysgolion Creadigol**
Gwnaeth disgyblion Cyfnod Allweddol 2 fwynhau cymryd rhan mewn gweithdy Ysgolion Creadigol, yn creu polyn "totem" gyda darluniau gwahanol anifeiliaid arno.

**Gornest Wlyb**
Roedd holl blant Dosbarth 1 yn rhan o ornest wlyb ar ddiwrnod ola'r tymor i ddathlu ennill mwy na 100 pwynt Dojo yr un yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn gyfle gwych i ddathlu blwyddyn lwyddiannus arall yn Ysgol Pen-llwyn, i edrych ymlaen at wyliau'r Haf a'r dyfodol a mwynhau am yr unwaith olaf yng nghwmni ei gilydd. Pwy fyddai'n meddwl fod plant yn hoffi rhedeg o gwmpas yn gwlychu ei gilydd cymaint!








## GYDA'N GILYDD

**Sgwrs gyda'r awdur Meilyr Sion**
Trefnwyd sesiwn rithiol gyda Tîm cefnogi'r Gymraeg i'r awdur Meilyr Sion am ei lyfr *Cwm y wrach* (Atebol). Astudiwyd y nofel dros y cyfnod clo.

**Ffarwelio â Mr Steffan Davies**
Roedd hi'n ddiwedd tymor gwahanol eleni eto wrth i ni ffarwelio â Mr Steffan Davies oedd yn bennaeth dros dro am dymor yn y ddwy ysgol. Mae Mr Davies wedi derbyn swydd barhaol fel dirprwy yn Llwyn yr Eos ac rydym yn dymuno'n dda iawn iddo. Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr iawn a diolch iddo am y gefnogaeth a gawsom.

Rydym felly am groesawu Efan Williams atom fel Pennaeth dros dro yn ei le. Mae Mr Williams yn athro yn Ysgol Myfenydd, Llanrhystud ond wedi cael secondiad i ddod atom. Dymunwn pob hwyl iddo yn ei rôl newydd ac rydym yn siwr y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Hefyd hoffem ddiolch yn fawr iawn i Rhian James wrth iddi ffarwelio â ni a dymuno pob dymuniad da iddi.

**Mabolgampau**
Dyma achlysur llawn hwyl. Cafodd y plant ddiwrnod i'r brenin yn rhedeg, neidio a thaflu ac roedd y safon yn uchel, a byddai dim un o'r plant wedi edrych allan o'u dyfnder yn Tokyo! Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau Cofid-19 doedd dim rhieni na ffrindiau yr Ysgol yn gallu bod yn bresennol felly dangoswyd lluniau o'r plant yn cystadlu ar ein tudalen Class Dojo. Ar ddiwrnod mor braf roedd plant yr Ysgol mor ddiolchgar i Lynwen Jenkins am ddarparu hufen iâ i bawb ar ddiwedd y mabolgampau. Llongyfarchiadau blant am gystadlu mor frwd, am weithio fel rhan o dîm ac yn bennaf am gystadlu yn yr ysbryd orau.

**Ennill gwobr platinwm criw Eco!!**
Llongyfarchiadau i'r pwyllgor Eco am sicrhau bod y ddwy ysgol yn ennill yr anrhydedd yma am eu gwaith caled yn ystod y blynyddoedd diwethaf! Tipyn o her pan oedd rhaid siarad ac esbonio y 9 maes dros Teams i'r swyddog datblygu a chyn hynny rhaid oedd ffilmio cyflwyniad o ardaloedd yr ysgol a'r hyn rydyn wedi ceisio ei ddatblygu.
Cafwyd picnic di-blastig i ddathlu ar ôl clywed y newyddion da!

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Darllen dros Gymru Bl 3 a 4**
Ar ôl ennill rownd Ysgolion Ceredigion am drafod testun llyfr penderfynodd y disgyblion fynd amdani yn y rownd dros Gymru! Y tîm trafod oedd Twm, Caio, Gruff ac Elis ac mi benderfynodd y pedwar ar lyfr stori *Pedro y Pengwin* (Gomer@Lolfa) gan Awen Schavonie-roedd yn rhaid iddynt fynegi eu barn nhw am y llyfr yn ogystal a thrafod yn ddoeth ymysg ei gilydd. Ail ran y gystadleuaeth oedd ffilmio cyflwyniad ar lyfr arall sef *Academi Pêl droed* – (Gomer@atebol) ysgrifennodd Mrs Fflur Jones a Mrs Bethan Evans y sgript ac fe ymunodd mwy o ddisgyblion i gyflawni'r her yma sef Cory, Harrison, Jac, Rhys a Channel. Cafwyd lot o hwyl yn ffilmio golygfeydd am bêl droed!

Cafodd y plant y canlyniad cyn diwedd y tymor ac roeddym i gyd ar ben y byd wrth i ni dderbyn y 3ydd safle dros Gymru – tipyn o gamp gan fod 12 ysgol yn cystadlu. Dyma griw oedd wedi serennu trwy'r gystadleuaeth i gyd ac wedi bodloni colli sawl amser chwarae i fedru cyflawni pob dim! Edrychwn ymlaen i gystadlu eto y flwyddyn nesaf ac wrth gwrs i barhau i ddarllen!

**Ardal Myfyrio Allanol**
Penderfynodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 2020 – 2021 greu ardal myfyrio allanol tu allan i'r dosbarth. Diolch i Elis Jenkins a'i dad Mr. Geraint Jenkins am greu ein mainc myfyrio. Fe benderfynodd y plant greu murlun o'i hoff bethau am yr ysgol. Diolch i Freya Watkins am ddylunio gosodiad y lluniau. A diolch i'r plant am greu lluniau hyfryd. Am ardal benigamp blant – da iawn!

**Datblygu'r ardd lysiau!**
Mae yna griw o fl 3 a 4 wedi bod yn brysur cyn gwyliau yn plannu yn yr ardd yr – braf gweld cymaint o ddiddordeb gyda nhw i ofalu a gweld datblygiad. Diolch i sawl teulu fu'n gofalu am yr ardd ac am yr ieir dros wyliau'r haf – rydym yn lwcus iawn ohonoch!

**Wythnos Ysgolion Creadigol**
Cafwyd grant i ddatblygu sgiliau creadigol bl 3 a 4 trwy gynnig profiad newydd iddyn nhw ar ddefnyddio coed /pren i greu anifeiliaid o bob math! Roedd y tri diwrnod yn fythgofiadwy wrth iddyn nhw arbrofi ar gynlluniau cychwynol trwy ddefnyddio inc a phaent; yna aethpwyd ati i greu yr anifeiliaid trwy uno darnau o bren. Diolch i Louise ac Alice o ardal Cwmrheidol-roedd y ddwy yn arbenigwyr yn y maes - mwynheuodd pob un disgybl!











**Dosbarth dau**
Roedd cyffro ar ddiwedd tymor yr haf yn y dosbarth gyda'r plant yn pleidleisio am ba thema y roeddent am ddysgu amdano. Ar ôl pleidlais y thema daeth i'r brîg oedd Pokemon! Doedd hyd yn oed yr athrawon ddim yn gwybod llawer am y thema ond gyda help y plant roedd pawb wedi dysgu sawl ffaith ddiddorol am y cymeriadau! Uchafbwynt y thema oedd cydweithio mewn grwpiau i gyflwyno gwybodaeth am eu hoff gymeriadau o'r rhaglen!
Yn anffodus nid oedd modd trefnu trip Haf eleni felly cafon ni ddiwrnod ar y traeth yn yr Ysgol. Y diwrnod cynt bu'r plant yn coginio hufen iâ yn barod i'w fwyta y diwrnod canlynol. Roedd yr hufen iâ yn flasus tu hwnt! Gwisgodd y plant fel eu bod yn mynd i'r traeth a chafwyd hwyl a sbri yn ein Gornest Wlyb. Diwrnod gwych!

Hoffwn groesawu Megan Lewis atom fel athrawes ym mlwyddyn 1 a 2 dros gyfnod mamolaeth Mrs Jones ac I Zaharah sydd yn ddisgybl newydd ym mlwyddyn 1.

**Dosbarth Derbyn**
Môr ladron oedd thema'r dosbarth Derbyn am yr wythnosau olaf. Roedd y plant wrth eu bodd! Uchafbwynt y thema oedd parti y Môr Ladron – roedd gwisgoedd y plant yn anhygoel! Diwrnod i'w gofio! Hoffwn groesawu Mrs Demelza Fish-Jenkins atom fel athrawes dros dro ac Esme sydd yn ddisgybl Newydd yn y dosbarth

Diolch i Wasanaeth Cerdd Ceredigion am ymweld â'r ysgol cyn y gwyliau i arddangos amryw o offerynnau. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

**Gwasanaeth Ffarwelio Blwyddyn 6**
Daeth yr amser i ffarwelio gydag 16 disgybl ym mlwyddyn 6 ar ddiwedd tymor yr Haf: Abigail, Cari, Charlotte, Dylan, Elis, Freya, Gwen, Harri, Leanne, Lily-Ann, Liwsi, Lois, Osian, Poppy, Shayleigh a Zak. Y maent wedi bod yn llysgenhadon arbennig i'r ysgol. Cafwyd gwasanaeth yn y dosbarth gyda rhieni yn ymuno â ni yn rhithiol. Gwyliwyd fideo o amryw dalentau y digyblion, yn ogystal gofynnwyd iddynt rannu eu hoff atgofion o'u hamser yn yr ysgol. Dymunwn pob llwyddiant a hapusrwydd iddynt yn eu hysgolion uwchradd.

**Llongyfarchiadau**
i Rhian Cory a Phil ar enedigaeth eu mab Dewi Ifan. Fe'i ganwyd ar y 4ydd o Awst ac mae'r teulu bach yn gwneud yn arbennig! Rydyn yn edrych ymlaen i Dewi ymweld gyda ni yn yr Ysgol!

Hoffwn ddymuno cyfnod mamolaeth dda i Mrs Fflur Jones sydd yn disgwyl babi ym mis Hydref - byddwn yn gweld eich eisiau ond rydym yn croesawu Megan Lewis o Fachynlleth atom yn ei lle – roedd Megan yn fyfyrwraig yn yr ysgol nôl yn nhymor y Gwanwyn ac rydym yn edrych ymlaen at ei chwmni yn nheulu'r ysgol.

# Tasg y Tincer

Helô bawb, a chroeso 'nôl! Gawsoch chi wyliau braf? Dwi'n siŵr fod sawl un ohonoch chi wedi bod yn aros oddi cartre – mewn gwesty, tŷ gwyliau, carafán neu babell, neu falle mewn caban bugail, pod neu mewn tîpî! Buodd sawl un ohonoch chi'n brysur iawn yn lliwio, ac roedd het Y Tincer yn llawn! Dyma'r enwau:



Cai, Caerdydd; Rhys, Penrhyn-coch; Evan Griffiths, Bow Street; Enfys (4 oed); Elsi Wyn Lewis, Capel Bangor; Osian Hatfield, Bont-goch; Ywain Meurig, Penrhyn-coch; Charlie Bates, Bow Street; Magi Davies, Caernarfon; Siôn Gibson, Penrhyn-coch; Tesni Davies, Llanilar.

Dy lun di, Ywain, ddaeth o'r het yn gyntaf. Hwrê! A llongyfarchiadau i chi i gyd ar eich lluniau arbennig.

Mae mis Medi'n fis hyfryd, yn tydi – mae'r tywydd dal yn medru bod yn braf, ry'n ni'n cael cwmni'n ffrindiau eto, ac mae'n amser hel ffrwythau o'r cloddiau, felly bydd pwdin a jam a chacen i bawb! Ydech chi'n mwyara, neu'n hel mwyar duon? Mae'n medru bod yn dasg bigog a bydd gennych chi fysedd – a chegau – coch wrth droi am adre, ond mae'n werth rhoi cynnig arni. Sgwennodd bardd o'r enw Isfoel gerdd am fis Medi:

Y llwyni cnau yn llawnion – afalau
filoedd yn fochgochion;
brithwyd y berth hyd y bôn
yn dew gan fwyar duon.



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, beth am liwio llun y mwyar? Maen nhw'n barod i'w hel a'u coginio – crymbl a tharten amdani bob tro. Iym! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Hydref 1af. Ta ta tan toc, a phob lwc yn ôl yn yr ysgol!

ISSN 0963-925X
9 770963 925009

*Rhif 441 | Medi 2021*